# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** | **DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH, 4 HYDREF 2022 am 2.00 o'r gloch** | **TUESDAY, 4 OCTOBER 2022 AT 2.00 pm** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR 1 AC YN RHITHWIR** | **HYBRID MEETING – IN COMMITTEE ROOM 1 AND VIRTUALLY** |
| **Swyddog Pwyllgor** — **Shirley Cooke 01248 752514** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Carwyn Jones, Llio Angharad Owen, Dylan Rees, Alwen Pennant Watkin *(Is-Gadeirydd/Vice Chair)*

**Y Grŵp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O Jones

**Plaid Lafur Cymru / Wales Labour Party**

Keith Roberts *(Cadeirydd/Chair)*

**Annibynnwyr Môn / Anglesey Independents**

Jeff Evans, Aled M Jones

# R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 19 Hydref 2021 (Arbennig)
- 25 Tachwedd 2021 (Arbennig)
- 31 Mai 2022

**3** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 7 - 8)

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar eitem 4 isod ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno, ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig."

**4** **DYNODIAD PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD ("PENNAETH DEMOCRATIAETH")** (Tudalennau 9 - 18)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

**5** **STRATEGAETH DATBLYGU AELODAU** (Tudalennau 19 - 30)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol.

**6** **DISGRIFIADAU RÔL I AELODAU** (Tudalennau 31 - 86)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

**7** **ADRODDIADAU BLYNYDDOL GAN AELODAU** (Tudalennau 87 - 92)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol).

**8** **AMSERU CYFARFODYDD Y CYNGOR** (Tudalennau 93 - 96)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

# CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr John Griffith, Vaughan Hughes, Eric Wyn Jones, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Dylan Rees, Dafydd Roberts, J Arwel Roberts |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd Richard Griffiths |

---

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Dim.

**2. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf, 2021 ac fe gadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y bydd angen cynnal Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd fis nesaf er mwyn trafod ymateb y Cyngor i adroddiad drafft y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRP) cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau ar 26 Tachwedd 2021.

**3. ADOLYGIAD O ETHOLAETHAU SENEDDOL**

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bod y Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi dechrau ar ei adolygiad 2023 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru, yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986. Mae cynigion cychwynnol wedi eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghori, gyda dyddiad cau o 3 Tachwedd wedi ei nodi ar gyfer derbyn sylwadau.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod y cynigion yn argymell lleihau nifer yr etholaethau o 40 i 32 yng Nghymru. Nid yw Etholaeth Ynys Môn yn destun unrhyw newidiadau ac nid yw'n cael ei argymell fod unrhyw newid enw chwaith.

Nodwyd y gwnaethpwyd achos i ddiogelu Etholaeth Ynys Môn yn 2017, fel rhan o'r adolygiad diwethaf.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod y cynigion yn argymell lleihau nifer yr etholaethau o 40 i 32 yng Nghymru. Codwyd pryderon am yr effaith y byddai'r gostyngiad hwn yn ei gael ar Gymru a llais democrataidd.

**PENDERFYNWYD croesawu'r cynigion ar gyfer Etholaeth Seneddol Ynys Môn, fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, ac argymell hynny i'r Cyngor Sir.**

Daeth y cyfarfod i ben am 10.40 am

**CYNGHORYDD ROBERT LL JONES**
**CADEIRYDD**

# CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Vaughan Hughes, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Dylan Rees, Richard Griffiths, Dafydd Roberts, J Arwel Roberts |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd John Griffith |

---

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim.

**2. PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT AR GYFER 2022/23**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW), sy'n nodi'r lwfansau sy'n daladwy i Aelodau etholedig ac Aelodau cyfetholedig â hawliau pleidleisio.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd nad yw lwfansau'r IRP wedi cynyddu yn unol â chyflogau ar draws Cymru. Mae'r IRP felly yn cynnig cynyddu taliadau holl Aelodau ac Aelodau cyfetholedig pob Cyngor.

Cytunodd y Pwyllgor fod angen i lwfansau Aelodau gynyddu er mwyn gallu denu trawstoriad ehangach o'r gymuned, yn enwedig pobl ifanc a merched, i sefyll yn yr etholiad.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod y cynigion yn cael eu gosod yn genedlaethol ac y byddant yn weithredol yn dilyn etholiadau Mai 2022.

Nodwyd, pan fydd cynghorau newydd yn cael eu hethol bydd rhai o benderfyniadau'r Panel yn effeithiol ar gyfer tymor newydd y Cyngor. Bydd gan yr Adroddiad Blynyddol 2022-23 ddau ddyddiad gweithredu, sef:-

- Bydd yr holl benderfyniadau yn Adroddiad Blynyddol 2021/22 yn parhau i fod yn weithredol am y cyfnod rhwng 1 Ebrill ac 8 Mai 2022.
- Bydd y penderfyniadau yn Adroddiad Blynyddol 2022/23 yn weithredol o 9 Mai 2022.

Mae crynodeb o'r newidiadau arfaethedig wedi eu nodi isod:-

- Cynyddu cyflog sylfaenol aelodau etholedig o £14,368 i £16,800.
- Nifer yr uwch gyflogau i aros fel ag y ma ear 16, yn cynnwys y cyflogau dinesig.
- Bydd nifer yr Aelodau etholedig ar Ynys Môn yn cynyddu i 35.
- Cynyddu'r uwch gyflogau a'r cyflogau dinesig fel yr amlinellir isod:-

| **Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig 2022/23** (gan gynnwys y cyflog sylfaenol) | | **1 Ebrill – 8 Mai 2022** | **O 9 Mai 2022** |
|---|---|---|---|
| **Uwch Gyflogau** | | | |
| Band 1 | Arweinydd | £44,921 | £53,550 |
| | Dirprwy Arweinydd | £31,783 | £37,485 |
| Band 2 | Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith | £27,741 | £32,130 |
| Band 3 | Cadeiryddion Pwyllgorau (os y'u telir) | £23,161 | £25,593 |
| Band 4 | Arweinydd y grŵp gwrthbleidiol mwyaf | £23,161 | £25,593 |
| Band 5 | Arweinwyr grŵpiau gwleidyddol arall | £18,108 | £20,540 |
| **Cyflogau Dinesig** (os y'u telir) | | | |
| Band 3 | Pennaeth Dinesig | £23,161 | £25,593 |
| Band 5 | Dirprwy Bennaeth Dinesig | £18,108 | £25,540 |

Bydd y cynnydd arfaethedig mewn lwfansau a ragwelir gan yr IRP mewn perthynas ag Ynys Môn tua £180,000 yn flynyddol o Mai 2022.

**PENDERFYNWYD derbyn y cynigion drafft yn adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2022/23.**

Bu'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, ddiolch i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd am ei waith ar y Pwyllgor a dymunodd yn dda iddo ar ei ymddeoliad.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.40 am

**CYNGHORYDD ROBERT LL JONES**
**CADEIRYDD**

## PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 31 Mai, 2022

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL :** | Y Cynghorydd Non Dafydd, Jeff Evans, Carwyn Jones, A M Jones, G O Jones, Llio A Owen, Dylan Rees, Keith Roberts and Alwen P Watkin. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL :** | Y Cynghorydd Dafydd Roberts – Cadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn |

---

### 1 DATGAN DIDDORDEB

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

### 2 ETHOL IS-GADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Alwen P Watkin yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

**Y CYNGHORYDD DAFYDD ROBERTS**
**FEL CADEIRYDD Y CYNGOR SIR**

This page is intentionally left blank

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

Penodi Pennaeth Democratiaeth
Appointment of Head of Democracy

Paragraff(au) 12,13,14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972
Paragraph(s) 12, 13,14 Schedule 12A Local Government Act 1972

Y PRAWF – THE TEST

| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:- | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:- |
|---|---|
| Mae gan ddinasyddion a thalwyr treth gyngor ddiddordeb cyhoeddus dilys ym materion ariannol yr awdurdod lleol, a sut mae’n gwario ei gyllideb; yn ogystal â sut mae’n trefnu ei staff, yn enwedig y rhai hynny mewn rolau statudol megis y Pennaeth Democratiaeth.<br><br>The financial affairs of the local authority, and how it spends its budget, is a legitimate public interest to citizens and council tax payers; as is the deployment of staff and especially those in statutory roles like the Head of Democracy. | Bydd rhywfaint o gynnwys yr adroddiad hwn/yr eitem hon yn wybodaeth bersonol o dan Ddeddf Diogelu Data 2018, gan eu bod yn ymwneud â phenodiad statudol unigolyn a enwir.<br><br>At ei gilydd, argymhellir bod y wasg a’r cyhoedd yn cael eu cau allan o’r adroddiad, ac unrhyw drafodaeth arno, gan gynnwys trafodaeth gyda’r enwebai yn y pwyllgor. Dylid nodi hefyd, ar ôl gwneud y penodiad, a chyda chaniatâd yr enwebai, y cyhoeddir datganiad cyhoeddus maes o law. Felly, nid oes unrhyw anfantais i’r cyhoedd.<br><br>Some content of this report/item will be classed as personal information under the Data Protection Act 2018, as it relates to the statutory designation of a named individual.<br><br>On balance, it is recommended that the report, and any discussion thereof, including discussion with the nominee at committee, shall exclude the press and public. It should also be noted that, once the designation is made, and with the approval of the nominee, a public statement will be issued in due course. There is therefore no detriment to the public. |

**Argymhelliad** - Mae budd y cyhoedd wrth gadw’r eithriad o bwys mwy nag wrth ddatgelu’r wybodaeth.
**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs disclosing the information.

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

| ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | PWYLLGOR DEMOCRATAIDD |
| **DYDDIAD:** | 4ydd HYDREF 2022 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | STRATEGAETH DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG |
| **ADRODDIAD GAN:** | RHEOLWR DATBLYGU ADNODDAU DYNOL |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | MIRIAM WILLIAMS (estyniad 2512) |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | I GYFLWYNO STRATEGAETH DATBLYGU AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG AR GYFER Y CYFNOD MAI 2022 - MAWRTH 2027 |

## 1. CEFNDIR

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw cyflwyno Strategaeth Datblygu ar gyfer Aelodau Etholedig sy’n amlygu’r ymrwymiad a’r gefnogaeth gynigir ar gyfer datblygiad Aelodau Etholedig yn ystod y 5 mlynedd nesaf.

1.2 Mae Datblygu Aelodau yn cyfeirio at unrhyw weithgareddau datblygu neu raglenni hyfforddi sydd wedi'u cynllunio'n benodol i wella gwybodaeth, sgiliau a galluoedd Aelodau Etholedig yn eu rolau amrywiol.

## 2. Y STRATEGAETH

2.1 Er mwyn galluogi Cynghorwyr i weithredu’n effeithlon ac effeithiol wrth gyflawni eu rolau amrywiol, mae’n bolisi gan y Cyngor nodi anghenion dysgu a datblygu pob Cynghorydd.

2.2 Mae hyn yn gofyn am agwedd ragweithiol tuag at Ddatblygu Aelodau a chefnogaeth ar ffurf cyflwyniadau, seminarau a gweithdai a hwylusir yn fewnol ac yn allanol yn ogystal â thrwy gyrsiau hyfforddi penodol. Mae'r Cyngor wedi cefnogi datblygiad Aelodau trwy ddyrannu cyllideb benodol ac wedi cymhwyso ei bolisi ar sail gyfartal i bob un o'r 35 Aelod, yn ogystal â chefnogi aelodau cyfetholedig o'r pwyllgorau Safonau, Archwilio a Sgriwtini. Cafodd y system hon ei ffurfioli yn 2008 pan ddyfarnwyd Siarter CLlLC ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau’r Cyngor, a gafodd ei hadnewyddu yn 2019.

2.3 Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i wella ymhellach y cyfleoedd a'r gefnogaeth i Aelodau a'u hanghenion dysgu a datblygu. Mae statws Siarter yn

tanlinellu pwysigrwydd parhaus hyfforddiant a datblygiad i Aelodau ac yn sicrhau y bydd darpariaeth yn y dyfodol yn seiliedig ar angen, a ddarperir gan weithwyr proffesiynol lle caiff ansawdd yr hyfforddiant ei fonitro o ran ansawdd a'i ddarparu i bob Aelod ar sail gyfartal.

Gweler gopi o’r Strategaeth drafft yn Atodiad 1 sy’n amlygu’r ymrwymiad ar ran y Cyngor.

## 3. CYFLAWNI’R STRATEGAETH

3.1 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, fel yr Hyrwyddwr Datblygu Aelodau, yn arwain ar hyn, gyda chefnogaeth y Pennaeth Democratiaeth.

3.2 Bydd y Strategaeth/Cais y Siarter yn cael ei gyflwyno i’r Cyngor ond mae cyfrifoldeb am fabwysiadu’r cynllun blynyddol, monitro ac adrodd yn gyfrifoldeb ar y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

## 4. ARGYMHELLIAD

- I nodi’r cynnwys ac i fabwysiadu a chefnogi’r Strategaeth gyflwynir.

**Miriam Williams**
**Rheolwr Hyfforddiant AD**
**Hydref 2022**

## Cyngor Sir Ynys Môn

# STRATEGAETH DATBLYGU AELODAU

### 2022 - 2027

**'Llunio'r dyfodol trwy ddatblygu pobl'**

DRAFT

**Dyddiad Adolygu: Mawrth 2027**

# STRATEGAETH DATBLYGU AELODAU

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod bod galwadau a disgwyliadau cynyddol ar Aelodau, o ystyried cyflymder y newid deddfwriaethol a'r amgylchedd sy'n newid o hyd. Mae gofyniad felly i sicrhau bod datblygiad a chymorth effeithiol ar waith i'w galluogi i gyflawni gofynion eu rolau.

1.2 Mae'r Cyngor yn gweithredu mewn amgylchedd sy'n newid o hyd, gan orfod ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth (e.e. Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)) 2014). ); Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sy'n lleihau cyllidebau tra'n ysgwyddo cyfrifoldebau newydd. Mae hyn yn gofyn am Aelodau Etholedig a gweithlu sy'n hyblyg ac yn ymatebol i newid. Mae'r Cyngor yn wynebu rhaglen hynod heriol sy'n cynnwys:-

- Cydweithio ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i wella darpariaeth gwasanaethau.
- Ymateb i doriadau cyllidebol flwyddyn ar ôl blwyddyn.
- Rolau newydd, heriol a newidiol i Aelodau Etholedig.
- Trefniadau rheoli gwleidyddol newydd a chyfrifoldeb am graffu ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill.
- Pwyslais ar welliant parhaus.
- Llywodraethu Corfforaethol.
- Datblygiadau Digidol a Thechnegol

1.3 Wrth groesawu'r heriau hyn, rhaid i'r Cyngor barhau i ddatblygu ei Aelodau fel eu bod yn:

- Ymateb i newid.
- Gwneud y defnydd gorau o'r holl adnoddau sydd ar gael.
- Yn gallu herio'r Cyngor a sefydliadau eraill yn deg a nodi arfer gorau.
- Yn canolbwyntio ar wneud y gorau o'r canlyniadau a ddarperir gan wasanaethau cyhoeddus o fewn yr hinsawdd heriol sydd ohoni gydag adnoddau ariannol yn lleihau.
- Yn arweinwyr cymunedol dylanwadol.



DRAFT

## 2. Pwrpas y Strategaeth

2.1 Er mwyn galluogi Cynghorwyr i weithredu'n effeithlon ac effeithiol wrth gyflawni eu rolau amrywiol, mae'n bolisi gan y Cyngor nodi anghenion dysgu a datblygu pob Cynghorydd.

2.2 Mae hyn yn gofyn am agwedd ragweithiol tuag at Ddatblygu Aelodau a chefnogaeth ar ffurf cyflwyniadau, seminarau a gweithdai a hwylusir yn fewnol ac yn allanol yn ogystal â thrwy gyrsiau hyfforddi penodol. Mae'r Cyngor wedi cefnogi datblygiad Aelodau trwy ddyrannu cyllideb benodol ac wedi cymhwyso ei bolisi ar sail gyfartal i bob un o'r 35 Aelod, yn ogystal â chefnogi aelodau cyfetholedig o'r pwyllgorau Safonau, Archwilio a Sgriwtini. Cafodd y system hon ei ffurfioli yn 2008 pan ddyfarnwyd Siarter CLlLC ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau'r Cyngor, a gafodd ei hadnewyddu yn 2019.

2.3 Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i wella ymhellach y cyfleoedd a'r gefnogaeth i Aelodau a'u hanghenion dysgu a datblygu. Mae statws Siarter yn tanlinellu pwysigrwydd parhaus hyfforddiant a datblygiad i Aelodau ac yn sicrhau y bydd darpariaeth yn y dyfodol yn seiliedig ar angen, a ddarperir gan weithwyr proffesiynol lle caiff ansawdd yr hyfforddiant ei fonitro o ran ansawdd a'i ddarparu i bob Aelod ar sail gyfartal.

## 3. Strategaeth Datblygu Aelodau – Nodau ac Amcanion

3.1 Mae Datblygu Aelodau yn cyfeirio at unrhyw weithgareddau datblygu neu raglenni hyfforddi sydd wedi'u cynllunio'n benodol i wella gwybodaeth, sgiliau a galluoedd Aelodau Etholedig yn eu rolau amrywiol.

3.2 Nod y strategaeth hon yw rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar Aelodau yn eu rolau presennol ac yn y dyfodol a diwygio/diweddaru disgrifiadau rôl yn ôl yr angen. Er mwyn sicrhau bod y strategaeth hon yn cwrdd ag anghenion Aelodau a'r Cyngor, bydd gweithgareddau'n cael eu cynllunio'n briodol, yn cael adnoddau o fewn terfynau'r gyllideb bresennol, yn cael eu monitro a'u gwerthuso.

3.3 Prif amcanion y strategaeth yw:-

- Sicrhau dealltwriaeth glir a rennir o rolau amrywiol Aelodau.

- Gwella perfformiad deiliaid uwch swyddi gyda chymorth Cyfweliadau Cymorth a Datblygiad Personol blynyddol.
- Darparu rhaglen anwytho integredig a rhaglen rôl, sgiliau a gwybodaeth barhaus o gyfleoedd datblygu i bob Aelod.
- I gynnig cyfleoedd i  Aelodau Etholedig i ddatblygu a gwella ei sgiliau digidol fydd yn ei cynorthwyo i fod yn fwy effeithiol gyda heriau technolegol
- Darparu cymorth wedi'i deilwra i anghenion Aelodau yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion hyfforddi unigol.
- Monitro effaith y strategaeth a defnyddio adborth i wella dros amser a dathlu llwyddiant.

3.4 Bydd y Cyngor yn darparu hyfforddiant a datblygiad hyblyg ac ymatebol i Aelodau Etholedig sy'n seiliedig ar anghenion unigol a sefydliadol. Bydd hyn yn cynyddu effeithiolrwydd Aelodau yn eu rolau amrywiol i sicrhau bod Cyngor Sir Ynys Môn yn cael ei ystyried fel arweinydd wrth ddarparu cefnogaeth i Aelodau Etholedig ac yn haeddu statws Siarter.

3.5 Dylid darllen y strategaeth hon ar y cyd â “Pholisi Dysgu, Hyfforddi a Datblygu” corfforaethol cyfredol yr Awdurdod.

## 4. Gweithredu Gofynion y Siarter

4.1 Mae'n hanfodol i'w llwyddiant bod Aelodau'n cymryd rhan arweiniol yn ei datblygiad, yn goruchwylio ei gweithrediad, yn fodlon cymryd rhan yng ngofynion y Siarter ac yn chwarae rhan lawn wrth werthuso a monitro ei chynnydd a'i heffeithiolrwydd.

4.2 Mae Siarter Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau yn nodi dull gweithredu trwyadl a strwythuredig ar gyfer datblygu Aelodau. Isod mae prif ofynion y Siarter ac ymagwedd y Cyngor at eu gweithredu:-

4.2.1 Cefnogir aelodau gyda disgrifiadau rôl, sy'n cael eu hadolygu yn ôl yr angen ac sy'n amodol ar gymeradwyaeth ffurfiol cyn eu dosbarthu i bob aelod, gan gynnwys aelodau cyfetholedig. Cânt eu defnyddio i lywio'r cynlluniau hyfforddi a datblygu unigol a fydd ar gael i bob aelod.

Gwneir dolenni o’r disgrifiadau rôl safonol a’r manylebau personol i dudalen ar-lein bersonol pob aelod.



DRAFT

4.2.2 Cefnogir aelodau i gyflawni eu dyletswyddau yn unol â safonau ymddygiad uchel - mae hyfforddiant Cod Ymddygiad wedi'i nodi fel elfen graidd o'r Rhaglen Datblygu Aelodau a darperir hyfforddiant yn ôl yr angen.

4.2.3 Cefnogir aelodau i ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau fel y nodir yn y Cyfansoddiad - Darperir hyfforddiant priodol ar rolau amrywiol Aelodau a phwyllgorau.

4.2.4 Mae strategaeth dysgu a datblygu Aelodau wedi'i mabwysiadu - Mae'r ddogfen hon wedi'i mabwysiadu gan y Cyngor fel ei Strategaeth Datblygu Aelodau.

4.2.5 Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi'r cyfle i bob Aelod gael adolygiad blynyddol o'i anghenion hyfforddi. Bydd trefniadau'n cael eu gwneud i bob Aelod gael cynnig Cyfweliad Datblygu ac atgoffir yr Aelodau o'r cyfle hwn yn flynyddol. Mae Siarter CLlLC hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob Aelod sy'n derbyn Cyflog Uwch gael cyfweliad o'r fath.

4.2.6 Er mwyn sicrhau bod yr anghenion hyfforddi a datblygu yn cwmpasu ystod mor eang â phosibl o ofynion Aelodau, pan na fydd Aelodau unigol yn manteisio ar yr opsiwn hwn byddant yn cael y cyfle i ymateb naill ai'n uniongyrchol i'r Pennaeth Democratiaeth a/neu Arweinydd ar gyfer Datblygu'r Gweithlu dros y ffôn, drwy e-bost neu'n ysgrifenedig.

4.2.7 Nodi Anghenion yr Awdurdod – Er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn mynd i'r afael ag anghenion cyffredinol yr Awdurdod yn ogystal ag anghenion Aelodau unigol, ymgynghorir yn flynyddol â Thîm Arweinyddiaeth Strategol yr Awdurdod a Phenaethiaid Gwasanaeth i gyflwyno unrhyw anghenion datblygu a hyfforddi Aelodau posibl ar gyfer ei faes cyfrifoldeb.

4.2.8 Cynlluniau Datblygu Unigol - Deilliant yr uchod fydd Cynllun Datblygu Aelod unigol ar gyfer pob Aelod sy'n cynnal cyfweliad neu'n rhoi manylion ei anghenion hyfforddi i'r Pennaeth Democratiaeth (o fewn cyfyngiadau'r cyllidebau sydd ar gael ac adnoddau eraill).

4.2.9 E-Ddysgu – Bydd cyfres o fodiwlau e-ddysgu yn cael eu datblygu a'u defnyddio fel elfen allweddol o ddatblygiad Aelodau.

4.2.10 Mae rhaglen ddatblygu ar gyfer cynghorwyr yn ei lle gyda mecanwaith ar gyfer ei adolygiad blynyddol – Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cytuno ar Raglen Datblygu Aelodau yn flynyddol, gan ystyried a gwerthuso cynllun y flwyddyn flaenorol, adolygiadau datblygu Aelodau unigol, adborth gan Aelodau sy'n ymateb i'r Pennaeth Democratiaeth ac adborth gan swyddogion a Thîm Arweinyddiaeth Strategol yr Awdurdod.

4.2.11 Mae pob Aelod yn cael gwybod am y gweithgareddau datblygu, yn cael eu hannog i gymryd rhan ynddynt ac yn gallu cael mynediad cyfartal iddynt – Bydd rhaglen o ddigwyddiadau hyfforddi yn cael ei dosbarthu i bob Aelod.

4.2.12 Hysbysir darpar ymgeiswyr, ymgeiswyr ac Aelodau newydd o'u rôl a'u cyfrifoldebau – bydd darpar ymgeiswyr yn cael gwybodaeth, digwyddiadau a chefnogaeth briodol yn ystod y cyfnod yn arwain at etholiad.

4.2.13 Mae gweithgareddau datblygu yn berthnasol ac o ansawdd uchel – Defnyddir ystod o ddarpariaeth fewnol ac allanol fel y bo'n briodol a bydd gwerthusiad o bob sesiwn yn cael ei wneud.

4.2.14 Mae cyfrifoldeb clir am arwain y rhaglen, gyrru'r strategaeth a monitro'r canlyniadau – Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, gyda chefnogaeth y Pennaeth Democratiaeth, fydd yn gyfrifol am y strategaeth hon a'r rhaglen.

4.2.15 Mae adnoddau'n cael eu nodi a'u darparu ar gyfer datblygu Aelodau - Bydd cyllideb hyfforddi flynyddol yn bodoli i gwrdd â gofynion datblygu Aelodau, gyda lefel y gyllideb yn amodol ar gyfyngiadau ariannol yr Awdurdod.

4.2.16 Bydd pob Aelod yn cael cynnig y cyfle i ofyn am fentora gyda mentoriaid sydd wedi derbyn hyfforddiant priodol i ymgymryd â'r rôl.

4.2.17 Darperir cefnogaeth swyddogion ar gyfer datblygu, cefnogi a chraffu Aelodau - Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, gyda chefnogaeth y Pennaeth Democratiaeth, yn gyfrifol am sicrhau bod cefnogaeth ddigonol yn bodoli.

4.2.18 Mae'r trefniadau a wneir ar gyfer busnes y Cyngor yn hyblyg ac yn galluogi Aelodau i gyfranogi'n llawn, waeth beth fo'u hamgylchiadau personol – Cyflwynir adroddiad blynyddol i'r Cyngor i ystyried dyddiadau ac amseroedd cyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan gymryd i ystyriaeth ofynion y Cyngor. Deddf

Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac i gyfarch amrywiaeth Aelodau Etholedig.

4.2.19 Rheoli cyswllt a chyfathrebu – bydd aelodau'n cael gwybodaeth briodol fel rhan o becyn Anwytho ac ar fewnrwyd y Cyngor i'w cefnogi i gyflawni eu dyletswyddau.

Bydd yr Awdurdod yn cynnal safonau ar gyfer amseroedd ymateb i e-byst, galwadau ffôn a gohebiaeth ysgrifenedig.

4.2.20 Adroddiadau Blynyddol - Bydd pob Aelod yn cael cynnig y cyfle i gynhyrchu Adroddiad Blynyddol yn unol â'r gofynion

4.2.21 Darperir mynediad digonol i TGCh i bob Aelod – Darperir offer, cefnogaeth a hyfforddiant priodol i Aelodau.

4.2.22 Darperir adnoddau gwybodaeth – Mae adnoddau a gwybodaeth briodol ar gael i Aelodau mewn fformat priodol.

4.2.23 Mae cyfleusterau i Aelodau weithio yn y Cyngor ar gael - Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, gyda chefnogaeth y Pennaeth Democratiaeth, yn adolygu o bryd i'w gilydd bod adeiladau, TGCh ac adnoddau cysylltiedig eraill yn ddigonol i ddiwallu anghenion Aelodau.

## 5. Cyflawni Strategaeth

5.1 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, fel yr Hyrwyddwr Datblygu Aelodau, yn arwain ar hyn, gyda chefnogaeth y Pennaeth Democratiaeth. Bydd y Strategaeth/Cais y Siarter yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ond mae cyfrifoldeb am fabwysiadu'r cynllun blynyddol, monitro ac adrodd yn gyfrifoldeb ar y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

5.2 Pwrpas gwaith y Pwyllgor yn hyn o beth fydd:-

- Sefydlu proses Hyfforddi a Datblygu Aelodau gynhwysfawr a chadarn gan ddefnyddio egwyddorion Siarter CLlLC ar gyfer Datblygu a Chynorthwyo Aelodau.

- Sicrhau bod Datblygu Aelodau yn dod yn rhan o weithgarwch sefydliadol prif ffrwd cyffredinol.
- Gwneud argymhellion i'r Cyngor, fel y bo'n briodol, ar Gymorth i Aelodau, yn enwedig Datblygu Aelodau.
- Cydlynu a gwerthuso'n barhaus y Rhaglen Datblygu Aelodau.
- Monitro cynnydd yn erbyn amcanion y Strategaeth.

5.3 Bydd yr holl weithgareddau hyfforddi a datblygu Aelodau a ddarperir o ganlyniad i'r Strategaeth hon yn:-

- Cael eu sicrhau gan y darparwyr hyfforddiant neu'r hwyluswyr mwyaf effeithiol a phriodol o'r tu mewn neu'r tu allan i'r Awdurdod.
- Ymateb i anghenion yr Aelodau o ran dull ac arddull cyflwyno.
- Cymryd i ystyriaeth egwyddorion polisïau perthnasol y Cyngor.
- Cael eu cynllunio a'i trefnu ar yr amseroedd a'r lleoliadau sydd fwyaf cyfleus i Aelodau er mwyn cyfarch yr ystod eang o Aelodau Etholedig.

## 6. Gwerthusiad o'r Strategaeth

6.1 Bydd cynnydd yn cael ei fonitro a'i werthuso yn barhaus gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pennaeth Democratiaeth.

6.2 Bydd datblygiad Aelodau o ganlyniad i'r gweithgareddau yn cael ei asesu ganddynt hwy eu hunain gyda chefnogaeth uwch Aelodau a Swyddogion priodol os ydynt yn cymryd rhan yn y Cyfweliadau Cymorth a Datblygiad Personol.

## 7. Adnoddau

7.1 Bydd cyllideb flynyddol yn cael ei chynnwys yn y gyllideb Hyfforddiant Corfforaethol i gefnogi gweithgareddau Hyfforddi a Datblygu Aelodau. Mae gan y Pennaeth Democratiaeth gyfrifoldeb cyffredinol dros Ddatblygu Aelodau ac fe'i cefnogir gan y gwasanaeth AD i gydlynu, cysylltu a threfnu'r hyfforddiant perthnasol.

Atodiad 1

DRAFT

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Cyfarfod: | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Dyddiad: | 4 Hydref 2022 |
| Teitl yr adroddiad: | Disgrifiadau Rôl i Aelodau |
| Adroddiad gan: | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro |
| Pwrpas yr adroddiad: | Cymeradwyo disgrifiadau rôl i aelodau i'w mabwysiadu gan aelodau |

## 1.0 Cefdir

1.1 Mae gwaith aelod yn gymhleth ac yn heriol ac yn newid yn gyson. Mae angen cefnogaeth, gwybodaeth a datblygiad proffesiynol priodol ar aelodau newydd a phrofiadol i gyflawni eu rolau cymhleth ac esblygol.

1.2 Nôd Siarter Cefnogi a Datblygu Aelodau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yw darparu fframwaith eang ar gyfer rhoi y cymorth gorau posibl i aelodau. Dyfarnwyd statws y Siarter i'r Cyngor hwn gyntaf yn 2014 - mae mabwysiadu disgrifiadau rôl ar gyfer aelodau yn ofyniad penodol yn y Siarter.

1.3 Mae CLlLC wedi datblygu set o ddisgrifiadau rôl generig awgrymedig ar gyfer aelodau. Mae'r disgrifiadau rôl hyn wedi'u cynllunio i'w defnyddio ochr yn ochr â Fframwaith (Cymhwysedd) Datblygu Aelodau Cymru sy'n disgrifio'r sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiad sydd eu hangen ar aelodau. Maent yn cymryd i ystyriaeth holl ddeddfwriaeth y DU a Chymru sy'n effeithio ar rôl aelodau, gan gynnwys, yn fwyaf diweddar, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

1.4 Mae disgrifiadau rôl aelodau hefyd yn elfen bwysig o'r adolygiadau datblygiad personol sy'n rhan o Strategaeth Datblygu Aelodau'r Cyngor.

## 2.0 Mabwysiadau Disgrifiadau Rôl Aelodau

2.1 Mae dogfennau disgrifiadau rôl y Cyngor wedi'u diweddaru, yn seiliedig ar dempledi diweddaraf CLlLC. Mae'r dogfennau'n ymwneud â'r rolau canlynol a gellir eu gweld yn yr atodiad i'r adroddiad hwn:

Aelod Etholedig
Arweinydd (a Dirprwy)
Aelod o'r Pwyllgor Gwaith
Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Cadeirydd Pwyllgor Rheoleiddio
Aelod o Bwyllgor Rheoleiddio
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau
Aelod o'r Pwyllgor Safonau
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Cadeirydd Pwyllgor Sgriwtini
Aelod o Bwyllgor Sgriwtini
Aelod Cyfetholedig o Bwyllgor Sgriwtini
Arweinydd yr Wrthblaid
Arweinydd Grwp Gwleidyddol
Aelod sy'n Bencampwr

2.2 Unwaith y bydd y disgrifiadau rôl wedi'u cymeradwyo'n ffurfiol, bydd pob aelod yn cael pecyn sy'n cynnwys yr holl ddisgrifiadau rôl sy'n berthnasol iddynt, i'w mabwysiadu. Bydd y pecyn wedyn yn cael ei ychwanegu at dudalennau unigol yr aelodau ar wefan y Cyngor. Bydd y set lawn o ddisgrifiadau rôl hefyd yn cael eu cyhoeddi ar dudalen ar wahân ar y wefan.

## 3.0 Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r dogfennau disgrifiad rôl aelodau cyn iddynt gael eu hanfon ymlaen at yr aelodau i'w mabwysiadu

Lynn Ball
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro

## Disgrifiad o Swyddogaeth Aelod Etholedig

### 1. Atebolrwydd

- I etholwyr Ynys Môn
- I'r Cyngor llawn
- I etholwyr eu ward

### 2. Pwrpas y Rôl a Swyddogaethau

**Cynrychioli a chefnogi cymunedau**

- Cynrychioli buddiannau'r ward
- Gweithredu fel llysgennad i'r Cyngor yn y ward a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu
- Gweithredu fel cyfrwng cyfathrebu i'r gymuned ynglŷn â strategaethau, polisïau, gwasanaethau a gweithdrefnau'r Cyngor
- Cynrychioli etholwyr unigol a sefydliadau lleol, ymgymryd â gwaith achos ar eu rhan a gwasanaethu pob un yn deg ac yn gydradd
- Cysylltu ag aelodau'r Pwyllgor Gwaith, Aelodau eraill y Cyngor, Swyddogion y Cyngor a sefydliadau partner er mwyn sicrhau bod anghenion cymunedau lleol yn cael eu nodi, eu deall a'u cefnogi
- Hyrwyddo goddefgarwch a chydlyniad yn y cymunedau lleol
- Bod yn wyliadwrus a gwneud popeth posib i amddiffyn oedolion a phlant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin

**Gwneud penderfyniadau a chadw golwg ar berfformiad y Cyngor**

- Cymryd rhan yng nghyfarfodydd llawn y Cyngor, gwneud penderfyniadau cytbwys ar sail gwybodaeth, cadw golwg ar berfformiad y Cyngor
- Cymryd rhan mewn unrhyw bwyllgorau neu banelau y byddant yn aelodau ohonynt a gwneud penderfyniadau cytbwys ac ar sail gwybodaeth
- Glynu at egwyddorion democratiaeth a chydgyfrifoldeb wrth wneud penderfyniadau
- Hyrwyddo a sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill
- Derbyn cyfrifoldeb corfforaethol am amddiffyn plant ac oedolion bregus

**Cynrychioli'r Cyngor (yn amodol ar eu penodiad)**

- Cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol lleol fel cynrychiolydd y Cyngor.
- Cynrychioli'r Cyngor ar gyrff partneriaeth lleol, hyrwyddo buddiannau cyffredin a chydweithio er lles ei gilydd
- Cynrychioli a bod yn eiriolwr ar ran y Cyngor ar gyrff cenedlaethol ac mewn digwyddiadau cenedlaethol

**Llywodraethu mewnol, safonau moesol a pherthnasau**

- Sicrhau bod y Cyngor a'i fusnes yn cael ei lywodraethu'n dda
- Arwain yn y gymuned a hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraeth agored a thryloyw
- Cefnogi a chynnal perthnasau parchus, priodol ac effeithiol â gweithwyr y Cyngor
- Cydymffurfio â'r Côd Ymddygiad i Aelodau, y Protocol ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion a glynu at y safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus

**Datblygiad personol a datblygiad yn y rôl**

- Cymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddi perthnasol a chymryd rhan lawn yn y cyfleoedd datblygiad a ddarperir gan y Cyngor.

## 3. Gwerthoedd

Yn llwyr ymrwymedig i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

1. Anhunanoldeb
2. Gonestrwydd
3. Uniondeb a Phriodoldeb
4. Dyletswydd i gynnal y gyfraith
5. Stiwardiaeth
6. Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
7. Cydraddoldeb a Pharch
8. Didwylledd
9. Atebolrwydd
10. Arweinyddiaeth Gynhwysol
11. Gwerthfawrogiad o wahaniaeth diwylliannol
12. Llesiant a chynaliadwyedd cenedlaethau'r dyfodol
13. Adeiladu consensws

# Aelod Etholedig – Manyleb Person

Er mwyn cyflawni ei rôl, fel yr amlinellir yn y disgrifiad rôl, mae'n rhaid i Aelod effeithiol feddu ar y canlynol:

## Cynrychioli a chefnogi cymunedau

- Sgiliau eirioli da
- Sgiliau rhyngbersonol
- Gonestrwydd a'r gallu i roi eich safbwyntiau eich hunain o'r neilltu ac i ymddwyn yn ddiduedd
- Y gallu i gyflwyno dadleuon perthnasol a rhesymegol
- Sgiliau cyfathrebu da

## Gwneud penderfyniadau a chadw golwg ar berfformiad y Cyngor

- Gwybodaeth am a dealltwriaeth o gyfraith, rheolau a safonau ymddygiad cyfarfodydd
- Dealltwriaeth o gyd-destunau strategol, polisi a gwasanaeth er mwyn gwneud penderfyniadau
- Y gallu i herio syniadau a chyfrannu'n gadarnhaol i ddatblygu polisi

## Cynrychioli'r Cyngor (yn amodol ar eu penodiad)

- Sgiliau siarad cyhoeddus da
- Sgiliau cyflwyno da
- Y gallu i berswadio eraill ac i ymddwyn yn onest

## Llywodraethu mewnol, safonau moesol a pherthnasau

- Dealltwriaeth o rolau Swyddogion, Aelodau ac asiantaethau gwahanol
- Dangos parch tuag at, ac awydd i weithio â, gwahanol grwpiau ac unigolion
- Gwybodaeth am, a dealltwriaeth o'r Côd Ymddygiad a'r Protocol ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion
- Gwybodaeth ac ymrwymiad i werthoedd y Cyngor

## Datblygiad personol a datblygiad yn y rôl

- Y gallu i asesu anghenion datblygu personol ac yn y rôl
- Yr awydd a'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu

# Disgrifiad o Rôl yr Arweinydd (a Dirprwy)

## 1. Atebolrwydd

- Etholaeth Ynys Môn
- Y Cyngor llawn
- Y cyhoedd

## 2. Diben a gweithgareddau'r rôl

### Rhoi arweiniad gwleidyddol i'r Cyngor

- Bod yn flaenddelw gwleidyddol i'r Cyngor ac yn brif lefarwr gwleidyddol iddo.
- Rhoi arweiniad o ran meithrin cysyniad gwleidyddol ym mholisïau'r Cyngor.
- Pennu gweledigaeth ar gyfer y Cyngor a'r gymuned
- Rhoi arweiniad cryf a chlir ynglŷn â chydlynu polisïau, strategaethau a threfniadau darparu gwasanaethau

### Penodi'r Pwyllgor Gwaith

- Pennu'r cyfrifoldebau portffolio priodol
- Penodi cynghorwyr priodol i gyflawni'r cyfrifoldebau portffolio hynny
- Rhoi cyfrifoldebau i aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn ôl eu galluoedd
- Penodi'r Dirprwy Arweinydd
- Cyflawni eu dyletswydd statudol i roi sylw dyledus i gydraddoldeb ac amrywiaeth wrth benodi eu Pwyllgor Gwaith
- Os yn berthnasol, penodi, mentora a rheoli cynorthwywyr y Pwyllgor Gwaith

### Cynrychioli'r Cyngor a bod yn llysgennad iddo

- Cynrychioli'r Cyngor yn ôl safonau uchel. Cynrychioli'r Cyngor mewn modd cryf, galluog a huawdl yn y sir ac mewn cyrff allanol fel ei gilydd
- Cynrychioli'r Cyngor ym Mhwyllgor Cydlynu CLlLC a Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol CLlLC
- Rhoi arweiniad a chymorth i bartneriaethau a mudiadau lleol
- Cynrychioli'r Cyngor mewn cyrff rhanbarthol a chenedlaethol lle bo'n briodol

### Rhoi arweiniad yn y maes mae'n gyfrifol amdano

- Os yn berthnasol, cyflawni rôl deilydd portffolio, gan gadw mewn cof ddiben a gwaith aelod gweithredol a'r disgrifiad o'i swyddogaeth

**Rheoli ac arwain gwaith y Pwyllgor Gwaith a chadeirio ei gyfarfodydd**

- Sicrhau bod gwaith y Pwyllgor Gwaith yn mynd yn esmwyth trwy reoli'r rhaglen waith a'i datblygu drwy'r amser, gan gynnwys rhyngwynebu gyda Phwyllgorau Sgriwtini
- Sicrhau bod gwaith y Pwyllgor Gwaith yn cyd-fynd ag amcanion polisïau cenedlaethol
- Cynghori a mentora aelodau eraill o'r Pwyllgor Gwaith / Cynorthwywyr y Pwyllgor Gwaith yn eu gwaith
- Cadeirio cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith yn unol â'r Cyfansoddiad
- Pan fo'r Arweinydd yn absennol, y Dirprwy Arweinydd fydd yn cyflawni hyn

**Cymryd rhan ym mhroses benderfynu'r Pwyllgor Gwaith**

- Cydweithio'n agos ag aelodau eraill y Pwyllgor Gwaith er mwyn sicrhau bod polisïau a fframwaith cyllidebol y Cyngor yn effeithiol a bod gwasanaethau o'r radd flaenaf ar gael i'r bobl leol
- Derbyn cyfrifoldeb ar y cyd a chefnogi penderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith ar ôl eu cyhoeddi

**Cydweithio â swyddogion i arwain yr awdurdod**

- Cysylltu â'r Prif Weithredwr a swyddogion priodol eraill yn rheolaidd
- Cydweithio â staff y Cyngor ynglŷn â gweledigaeth a chyfeiriad strategol y Cyngor, cyfrifoldebau swyddogion ym maes rheoli, a llunio polisïau

**Arwain partneriaethau a'r gymuned**

- Bod yn aelod penodedig y Cyngor o'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol
- Rhoi arweiniad i bartneriaethau strategol lleol a phartneriaid lleol ynglŷn â nodau a blaenoriaethau sy'n gyffredin iddynt
- Bod yn gyfryngwr pan fo anghytuno ynghylch blaenoriaethau
- Arwain y gymuned leol trwy amlygu gweledigaeth a chraffter

**Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau**

- Hyrwyddo a chynnal llywodraethu da yn y Cyngor a'i waith
- Arwain y gymuned a hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar
- Hyrwyddo a chynnal llywodraeth agored a thryloyw
- Meithrin a chadw cysylltiadau teilwng, priodol ac effeithiol â gweithwyr y Cyngor
- Cadw at y Côd Ymddygiad i Aelodau, y Protocol ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion a'r safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus
- Fel arweinydd grŵp, cyflawni eu dyletswydd statudol i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel o fewn eu grŵp

## 3. Gwerthoedd

Ymrwymo'n llawn ac adlewyrchu'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

1. Anhunanoldeb
2. Gonestrwydd
3. Uniondeb a Phriodoldeb
4. Dyletswydd i gynnal y gyfraith
5. Stiwardiaeth
6. Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
7. Cydraddoldeb a Pharch
8. Didwylledd
9. Atebolrwydd
10. Arweinyddiaeth Gynhwysol
11. Gwerthfawrogiad o wahaniaeth diwylliannol
12. Llesiant a chynaliadwyedd cenedlaethau'r dyfodol
13. Adeiladu consensws

**Dirprwy Arweinydd**

- **Cyflawni dyletswyddau'r Arweinydd yn eu habsenoldeb**
- **Cynorthwyo'r Arweinydd gyda dyletswyddau penodol yn ôl yr angen**

## Rôl Arweinydd – Manyleb Person

I gyflawni ei swyddogaeth yn ôl y disgrifiad ohoni, bydd angen y canlynol ar bob arweinydd:

**Rhoi arweiniad gwleidyddol i'r Cyngor**

- Gwybod cryfderau'r gymuned, meysydd i'w gwella a'r prif faterion
- Deall y berthynas rhwng gwleidyddiaeth cenedlaethol a lleol
- Bod yn effro i'r materion sy'n wynebu'r Cyngor
- Deall strategaethau, polisïau a gweithgareddau'r Cyngor

**Penodi'r Pwyllgor Gwaith**

- Deall y rheolau ynghylch penodi Aelodau'r Pwyllgor Gwaith / Cynorthwywyr y Pwyllgor Gwaith
- Gallu adnabod doniau ymhlith aelodau
- Gallu trefnu'r penodiadau mwyaf manteisiol mewn cylchoedd gwleidyddol ac ar eu traws
- Gwerthuso, cyfarwyddo a mentora uwch gynghorwyr

**Cynrychioli'r Cyngor a bod yn llysgennad iddo**

- Medrau rhagorol ynghylch cyfathrebu â'r cyfryngau, y trigolion lleol a chynulleidfaoedd ehangach
- Medrau da ynghylch siarad yn gyhoeddus

**Rhoi arweiniad yn y maes mae'n gyfrifol amdano**

- Os yn berthnasol, medrau priodol i gyflawni swyddogaeth aelod o'r Pwyllgor Gwaith

**Rheoli ac arwain gwaith y Pwyllgor Gwaith a chadeirio ei gyfarfodydd**

- Deall rheolau a gweithdrefnau'r Pwyllgor Gwaith
- Medrau cadeirio cyfarfodydd, gan gynnwys annog pob aelod i gymryd rhan
- Gwybod a deall amcanion polisïau cenedlaethol
- Bwrw golwg ar y gwaith mae aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyflawni

**Cymryd rhan ym mhroses benderfynu'r Pwyllgor Gwaith**

- Gallu cwestiynu penderfyniadau yn adeiladol ac awgrymu dewisiadau eraill

**Cydweithio â swyddogion i arwain yr awdurdod**

- Deall swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a swyddogion eraill

**Arwain partneriaethau a'r gymuned**

- Medrau arwain y mae modd eu haddasu
- Medrau trafod telerau a chyfryngu
- Meddwl craff a chreadigol – dawn darogan

**Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau**

- Deall swyddogaethau cynghorwyr, swyddogion ac amryw asiantaethau
- Parch at amryw garfanau ac unigolion, ac awydd i gydweithio â nhw
- Gwybod a deall y Côd Ymddygiad i Aelodau a’r Protocol ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion
- Gwybod gwerthoedd y Cyngor ac ymrwymo iddynt

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Disgrifiad o Rôl Aelod o'r Pwyllgor Gwaith

## 1. Atebolrwydd

- Etholaeth Ynys Môn
- Arweinydd
- Y Pwyllgor Gwaith (trwy gyfrifoldeb ar y cyd)
- Pwyllgorau Sgriwtini
- Y Cyngor llawn

## 2. Diben a gweithgareddau'r rôl

### Arwain yn y maes mae'n gyfrifol amdano

- Rhoi cyfeiriad gwleidyddol i swyddogion sy'n ymwneud â'i gyfrifoldebau portfolio a chyfrannu at fframwaith cynllunio strategol y Cyngor yn ei gyfanrwydd
- Ennill parch y swyddogion hynny; cynorthwyo swyddogion ynglŷn â rhoi rhaglenni perthnasol ar waith
- Rhoi arweiniad yn y maes mae'n gyfrifol amdano
- Cysylltu â Chadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini perthnasol a chael ei adroddiadau yn ôl yr angen
- Bod yn atebol am ddewisiadau a chyflawniad yn y maes dan sylw
- Cadw golwg ar y maes ynglŷn â rheoli'r hyn sy'n cael ei gyflawni a pha mor effeithlon ac effeithiol yw'r trefniadau
- Bod yn gyfrifol am benderfyniadau gweithredol yn y maes dan sylw. Fodd bynnag, cyfrifoldeb swyddogion yw gweithredu penderfyniadau.

### Cyfrannu at osod agenda strategol a rhaglen waith yn y maes mae'n gyfrifol amdano

- Cydweithio â swyddogion i lunio polisïau strategol a statudol
- Gofalu bod y Pwyllgor Gwaith yn gweithredu yn ôl ewyllys gwleidyddol y mwyafrif.
- Helpu i lunio a gweithredu rhaglen waith wleidyddol a statudol
- Ymgynghori â'r bobl berthnasol yn ôl yr angen
- Gofalu bod rhaglen waith y maes dan sylw yn un gyfoes a chywir
- Cydweithio gyda swyddogion i sicrhau bod yr agenda strategol yn cael ei chynnal
- Cyfrifoldeb cyfunol i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol fel y'u awdurdodwyd gan y Cyngor

### Cynrychioli'r maes mae'n gyfrifol amdano

- Cynrychioli'r maes dan sylw mewn modd cryf, galluog a darbwyllol
- Bod yn flaenddelw amlwg mewn cyfarfodydd â phobl berthnasol

**Rhoi adroddiadau a rhoi cyfrif**

- Rhoi adroddiadau i'r Arweinydd, y Cyngor Llawn, y Pwyllgor Gwaith, cadeirydd y pwyllgor sgriwtini perthnasol, y cyrff rheoleiddio a'r cyfryngau lle bo'n briodol
- Bod yn brif lefarwr gwleidyddol dros y maes dan sylw
- Mynd gerbron pwyllgorau sgriwtini ynglŷn â materion perthnasol

**Cymryd rhan yng nghyfarfodydd a phenderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith**

- Amlygu diddordeb a chefnogaeth ynglŷn â chyfrifoldebau aelodau eraill
- Cydnabod materion trawsbynciol neu faterion mae nifer o aelodau'n gyfrifol amdanyn nhw ar y cyd, a chyfrannu lle bo'n briodol

**Arwain partneriaethau a'r gymuned**

- Rhoi arweiniad i bartneriaethau strategol lleol a phartneriaid lleol ynglŷn â nodau a blaenoriaethau sy'n gyffredin iddyn nhw
- Bod yn gyfryngwr pan fo anghytuno ynghylch blaenoriaethau
- Arwain y gymuned leol trwy amlygu dychymyg a chraffter

**Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau**

- Hyrwyddo a chynnal llywodraethu da yn y Cyngor a'i waith
- Arwain y gymuned a hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar
- Hyrwyddo a chynnal llywodraeth agored a thryloyw
- Meithrin a chadw cysylltiadau teilwng, priodol ac effeithiol â gweithwyr y Cyngor
- Cadw at y Côd Ymddygiad i Aelodau, y Protocol ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion a'r safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus

## 3. Gwerthoedd

Ymrwymo'n llawn i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

1. Anhunanoldeb
2. Gonestrwydd
3. Uniondeb a Phriodoldeb
4. Dyletswydd i gynnal y gyfraith
5. Stiwardiaeth
6. Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
7. Cydraddoldeb a Pharch
8. Bod yn agored
9. Atebolrwydd
10. Arweinyddiaeth
11. Gwerthfawrogi gwahaniaethau diwylliannol
12. Llesiant a chynaliadwyedd cenedlaethau'r dyfodol
13. Adeiladu consensws

**Aelod o'r Pwyllgor Gwaith – Manyleb Person**

I gyflawni ei rôl yn ôl y disgrifiad ohoni, bydd angen y canlynol ar bob aelod o'r Pwyllgor Gwaith:

**Arwain yn y maes mae'n gyfrifol amdano**

- Deall strategaethau, polisïau a gweithgareddau'r Cyngor
- Medrau arwain

**Helpu i bennu agenda strategol a rhaglen waith yn y maes mae'n gyfrifol amdano**

- Gallu cyflwyno gwybodaeth i bobl eraill
- Craffter strategol
- Gwybod materion perthnasol a phwy ddylai fod ynghlwm wrth benderfynu
- Gallu darbwyllo pobl eraill
- Gwybod amcanion y Cyngor a'r wlad

**Cynrychioli'r maes mae'n gyfrifol amdano**

- Medrau siarad yn gyhoeddus
- Medrau cyflwyno da

**Rhoi adroddiadau fel y bo'n briodol**

- Medrau cyfathrebu o'r radd flaenaf

**Cymryd rhan yng nghyfarfodydd a phenderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith**

- Gallu cwestiynu penderfyniadau yn adeiladol ac awgrymu dewisiadau eraill
- Gwybodaeth, hyder a gallu i gymryd rhan mewn trafodaethau a helpu i ddatrys materion sy'n ymwneud â mwy nag un maes a/neu aelod

**Arwain partneriaethau a'r gymuned**

- Medrau arwain mae modd eu haddasu
- Medrau trafod telerau a chyfryngu
- Meddwl craff a chreadigol – dawn darogan

**Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau**

- Deall swyddogaethau cynghorwyr, swyddogion ac amryw asiantaethau
- Parch at amryw garfanau ac unigolion, ac awydd i gydweithio â nhw
- Gwybod a deall y Côd Ymddygiad a'r Protocol ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion
- Gwybod gwerthoedd y Cyngor ac ymrwymo iddynt

## Disgrifiad o Rôl Cadeirydd ac Is Gadeirydd y Cyngor

1. **Atebolrwydd**

- Etholaeth Ynys Môn
- Y Pwyllgorau Sgriwtini
- Y Cyngor llawn

2. **Diben a gweithgareddau'r rôl**

**Cynrychioli awdurdod democrataidd y Cyngor**

- Gweithredu'n bennaeth seremonïol y Cyngor, bod yn amhleidiol a chynnal gwerthoedd democrataidd y Cyngor
- Cynrychioli'r Cyngor mewn achlysuron dinesig a seremonïol

**Cadeirio cyfarfodydd y Cyngor**

- Cadeirio cyfarfodydd y Cyngor fel y gall gyflawni ei waith yn effeithlon
- Gofalu bod y Cyngor yn cynnal ei gyfarfodydd yn ôl ei Gyfansoddiad/Reolau Gweithdrefn

**Cynnal a hyrwyddo cyfansoddiad y Cyngor**

- Gofalu bod pawb yn cadw at y Cyfansoddiad a barnu am ei ddehongli lle bo angen yng nghyfarfodydd y Cyngor

**Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau**

- Hyrwyddo a chynnal llywodraethu da yn y Cyngor a'i waith
- Arwain y gymuned a hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar
- Hyrwyddo a chynnal llywodraeth agored a thryloyw
- Meithrin a chadw cysylltiadau teilwng, priodol ac effeithiol â gweithwyr y Cyngor
- Cadw at y Côd Ymddygiad i Aelodau, y Protocol ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion a'r safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus

3. **Rhaglenni gwaith**

- Goruchwylio'r rhaglen waith yn flynyddol fel y gall y Cyngor gyflawni ei gyfrifoldebau statudol (e.e. pennu cyllideb a Threth y Cyngor, a gwneud penodiadau)

## 4. Gwerthoedd

Ymrwymo’n llawn i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

1. Anhunanoldeb
2. Gonestrwydd
3. Uniondeb a Phriodoldeb
4. Dyletswydd i gynnal y gyfraith
5. Stiwardiaeth
6. Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
7. Cydraddoldeb a Pharch
8. Didwylledd
9. Atebolrwydd
10. Arweinyddiaeth Gynhwysol
11. Gwerthfawrogiad o wahaniaeth diwylliannol
12. Llesiant a chynaliadwyedd cenedlaethau'r dyfodol
13. Adeiladu consensws

## 5. Is-gadeirydd

- Cyflawni dyletswyddau'r Cadeirydd yn eu habsenoldeb
- Cynorthwyo'r Cadeirydd mewn dyletswyddau penodol yn ôl yr angen

**Cadeirydd ac Is Gadeirydd y Cyngor – Manyleb Person**

I gyflawni ei swyddogaeth yn effeithiol yn ôl y disgrifiad ohoni, bydd angen y canlynol ar Gadeirydd/Is-Gadeirydd:

**Cynrychioli awdurdod democrataidd y Cyngor**

- Medrau da ynghylch siarad yn gyhoeddus
- Deall swyddogaeth y Cadeirydd yn drylwyr

**Cadeirio cyfarfodydd y Cyngor**

- Medrau cadeirio cyfarfodydd, gan ofalu bod yr amcanion yn cael eu cyflawni a bod pawb yn cymryd rhan yn y trafodaethau
- Deall Rheolau Gweithdrefn y Cyngor

**Cynnal a hyrwyddo Cyfansoddiad y Cyngor**

- Deall Cyfansoddiad y Cyngor
- Deall pryd y dylai ofyn am gyngor y Swyddog Monitro ynghylch materion yn ymwneud â'r Cyfansoddiad
- Rhoddi sylw priodol i gyngor swyddogion

**Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau**

- Deall swyddogaethau cynghorwyr, swyddogion ac amryw asiantaethau
- Parch at amryw garfanau ac unigolion, ac awydd i gydweithio â nhw
- Gwybod a deall y Côd Ymddygiad a'r Protocol ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion
- Gwybod gwerthoedd y Cyngor ac ymrwymo iddynt

**Disgrifiad o Rôl Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

## 1. Atebolrwydd

- I etholaeth Ynys Môn
- I'r Cyngor llawn

## 2. Diben a gweithgareddau'r rôl

### Arwain a chyfeirio

- Rheoli cyfarfodydd mewn modd hyderus ac effeithio i hwyluso agwedd gynhwysol/gyfranogol a phenderfyniadau eglur

Arwain y Pwyllgor wrth gyflawni ei rôl ynglŷn â

- Penodi Pennaeth Democratiaeth
- Adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer staff, swyddfeydd ac adnoddau eraill sydd ar gael I'r Pennaeth Democratiaeth, a sicrhau fod y rhain yn ddigonol.
- Llunio adroddiadau blynyddol i'r Cyngor llawn ar yr uchod
- Penodi aelodau a chadeiryddion is-bwyllgorau i gyflawni swyddogaethau mae'r Pwyllgor wedi'u dirprwyo
- Ystyried adroddiadau a baratoir gan y Pennaeth Democratiaeth
- Datblygu strategaeth y Cyngor ar gyfer cynorthwyo a datblygu cynghorwyr
- Sicrhau fod gan aelodau fynediad at ddarpariaeth resymol ar gyfer hyfforddiant a datblygiad fel sydd wedi ei osod allan yn Strategaeth Datblygu Aelodau'r Cyngor a Siarter Cymru ar Ddatblygiad a Chefnogaeth Aelodau
- Sicrhau fod y gyllideb ar gyfer datblygiad cynghorwyr yn ddigonol
- Sicrhau fod gan gynghorwyr fynediad at gynllun datblygiad personol ac adolygiadau datblygiad personol blynyddol
- Gweithio â hyrwyddwr gweithgareddau cynorthwyo a datblygu'r cynghorwyr lle bo'n berthnasol i hybu rôl cynghorwyr a mynnu'r cymorth a'r cyrsiau datblygu priodol
- Amlygu agwedd annibynnol, gonest ac amhleidiol wrth benderfynu ar faterion yn ôl gofynion y gyfraith, y cyfansoddiad a pholisïau perthnasol

### Hyrwyddo Rôl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

- Gweithredu fel llysgennad i'r Pwyllgor gan hyrwyddo dealltwriaeth o'i rôl.
- Gweithredu o fewn gofynion technegol cyfreithiol a gweithdrefnol i oruchwylio swyddogaethau'r Pwyllgor mewn modd teg a chywir
- Gofalu bod y Pwyllgor yn gweithio mewn modd gwrthrychol a thrylwyr, gan dderbyn a defnyddio cynghorion arbenigol am sut mae cynnal cyfarfodydd

**Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau**

- Datblygu enw da a gonestrwydd y Pwyllgor a'i benderfyniadau
- Deall amryw rolau cynghorwyr, swyddogion a phobl allanol sy'n gweithredu yn y maes mae'r Pwyllgor yn gyfrifol amdano
- Hyrwyddo a hwyluso llywodraethu da yn y Cyngor

## 3. Egwyddorion

Ymrwymo'n llawn i egwyddorion y Cyngor a'r egwyddorion canlynol mewn swyddi cyhoeddus:

1. Anhunanoldeb
2. Gonestrwydd
3. Uniondeb a Phriodoldeb
4. Dyletswydd i gynnal y gyfraith
5. Stiwardiaeth
6. Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
7. Cydraddoldeb a Pharch
8. Didwylledd
9. Atebolrwydd
10. Arweinyddiaeth Gynhwysol
11. Gwerthfawrogiad o wahaniaeth diwylliannol
12. Llesiant a chynaliadwyedd cenedlaethau'r dyfodol
13. Adeiladu consensws

**Disgrifiad o Rôl Aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

## 1. Atebolrwydd

- I etholaeth Ynys Môn
- I'r Cyngor llawn
- I Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

## 2. Diben a gweithgareddau'r rôl

### Deall natur y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

Bod yn ymwybodol o rôl y pwyllgor a gweithredu'n effeithiol mewn:

- Dynodi Pennaeth Democratiaeth
- Adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer staff, swyddfeydd ac adnoddau eraill a ddarperir i'r Pennaeth Democratiaeth, gan sicrhau fod y rhain yn ddigonol
- Gwneud adroddiadau blynyddol i'r Cyngor llawn mewn perthynas â'r uchod
- Penodi is-bwyllgorau a chadeiryddion is-bwyllgorau i ymgymryd â swyddogaethau a ddirprwyir gan y Pwyllgor
- Ystyried adroddiadau a baratoir gan y Pennaeth Democratiaeth
- Datblygu strategaeth y Cyngor ar gyfer datblygiad a chefnogaeth i aelodau
- Sicrhau fod gan aelodau fynediad at ddarpariaeth resymol o hyfforddiant a datblygiad fel y'i disgrifir yn Strategaeth Datblygu Aelodau'r Cyngor a Siarter Cymru ar Gyfer Datblygu a Chefnogi Aelodau
- Sicrhau fod y gyllideb ar gyfer datblygu aelodau yn ddigonol
- Sicrhau fod gan aelodau fynediad at gynlluniau datblygu ac adolygiadau datblygiad personol blynyddol
- Bod â gwybodaeth dechnegol, gyfreithiol a gweithdrefnol digonol i gyfrannu'n deg a chywir i weithgareddau'r Pwyllgor
- Bod yn drwyadl a gwrthrychol wrth dderbyn ac ymateb i gyngor proffesiynol yn ystod cyfarfodydd a materion gerbron y Pwyllgor

### Cyfranogi mewn cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau

- Cyfranogi'n effeithiol mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
- Gwneud penderfyniadau cytbwys ar sail gwybodaeth, o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor sy'n cyd-fynd a gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisïau

**Llywodraethiant mewnol, safonau moesol a pherthnasau**

- Sicrhau didwylledd ym mhenderfyniadau'r Pwyllgor ac yn y rôl bersonol gan lynu at y Côd Ymddygiad / Protocol ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion a gofynion cyfreithiol a chyfansoddiadol eraill.
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethiant da gan y Cyngor
- Deall a pharchu rolau aelodau, swyddogion a phartneriaid allanol o fewn cwmpas cyfrifoldeb Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

## 3. Gwerthoedd

Ymrwymo'n llawn i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd swyddi cyhoeddus canlynol:

1. Anhunanoldeb
2. Gonestrwydd
3. Uniondeb a Phriodoldeb
4. Dyletswydd i gynnal y gyfraith
5. Stiwardiaeth
6. Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
7. Cydraddoldeb a Pharch
8. Didwylledd
9. Atebolrwydd
10. Arweinyddiaeth
11. Gwerthfawrogiad o wahaniaeth diwylliannol
12. Llesiant a chynaliadwyedd cenedlaethau'r dyfodol
13. Adeiladu consensws

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

**Disgrifiad o Rôl Cadeirydd Pwyllgor Rheoleiddio**

## 1. Atebolrwydd

- Etholaeth Ynys Môn
- Y Cyngor llawn.
- Aelodau'r pwyllgor rheoleiddio.

## 2. Diben a gweithgareddau'r rôl

### Rhoi arweiniad a chyfeiriad

- Rheoli cyfarfodydd mewn modd hyderus ac effeithiol i hwyluso awyrgylch cynhwysol a chyfranogol sy'n arwain at benderfyniadau eglur.
- Gofalu bod yr ymgeiswyr ac unrhyw bobl eraill sy'n ymwneud â'r broses reoleiddio yn fodlon ar ei thryloywder.
- Amlygu agwedd onest a diduedd wrth benderfynu, yn unol â gofynion y cyfansoddiad a'r deddfau a pholisïau perthnasol.
- Dirprwyo camau i is-bwyllgorau lle bo'n briodol.

### Hyrwyddo swyddogaeth y pwyllgor rheoleiddio a phenderfynu lled- gyfreithiol

- Bod yn llysgennad i'r pwyllgor, gan feithrin amgyffred o'i waith.
- Gweithredu yn ôl gofynion technegol, cyfreithiol a gweithdrefnol i oruchwylio swyddogaethau'r pwyllgor mewn modd teg a chywir.
- Gofalu bod y pwyllgor yn un trylwyr a gwrthrychol, gan dderbyn cyngor arbenigol am gynnal cyfarfodydd ac achosion neu geisiadau unigol cyn cyfarfodydd ffurfiol y pwyllgor, ac ymateb iddo.

### Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau

- Hyrwyddo enw da a theilyngdod y pwyllgor a'i benderfyniadau.
- Deall swyddogaethau'r cynghorwyr, y swyddogion a'r cyrff allanol sy'n ymwneud â'r maes mae'r pwyllgor yn gyfrifol amdano.
- Hyrwyddo a chynnal llywodraethu da yn y Cyngor.
- Rhoi ymrwymiad i ymgymryd â hyfforddiant priodol
- Cydymffurfio ag unrhyw godau a phrotocolau perthnasol, gan gynnwys y Côd Ymddygiad i Aelodau a'r Protocol ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion

**3. Gwerthoedd**

Ymrwymo'n llawn i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

1. Anhunanoldeb
2. Gonestrwydd
3. Uniondeb a Phriodoldeb
4. Dyletswydd i gynnal y gyfraith
5. Stiwardiaeth
6. Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
7. Cydraddoldeb a Pharch
8. Didwylledd
9. Atebolrwydd
10. Arweinyddiaeth Gynhwysol
11. Gwerthfawrogiad o wahaniaeth diwylliannol
12. Llesiant a chynaliadwyedd cenedlaethau'r dyfodol
13. Adeiladu consensws

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## Cadeirydd Pwyllgor Rheoleiddio – Manyleb Person

I gyflawni ei swyddogaeth yn ôl y disgrifiad ohoni, bydd angen y canlynol ar gadeirydd pob pwyllgor rheoleiddio:

**Rhoi arweiniad a chyfeiriad**

- Gallu cynnal cyfarfodydd i ofalu bod yr ymgeiswyr /partïon perthnasol o'r farn eu bod wedi cael chwarae teg hyd yn oed pan fônt wedi bod yn aflwyddiannus.
- Deall swyddogaeth y Cyngor a gofalu bod pawb sy'n ymwneud â'r Cyngor yn effro i'r swyddogaeth honno, hefyd.
- Medrau arwain.
- Gwybod materion lleol.
- Gallu rheoli gwaith y pwyllgor.
- Gallu meithrin a chynnal medrau priodol ymhlith aelodau'r pwyllgor.

**Hyrwyddo swyddogaeth y pwyllgor rheoleiddio a phenderfynu lled-gyfreithiol**

- Deall a gwerthfawrogi'r fframwaith rheoleiddio.
- Gallu ysgogi ac ysbrydoli aelodau'r pwyllgor ynglŷn â'u gwaith.
- Gonestrwydd, gan weithredu'n ddiduedd beth bynnag fo'i farn bersonol.
- Gwybod a deall y codau ymddwyn a'r protocolau perthnasol, a'u hyrwyddo.

**Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau**

- Gwybod a deall y Côd(au) Ymddygiad a phrotocolau.
- Gwybod gwerthoedd y Cyngor ac ymroi iddynt.

## Disgrifiad o Rôl Aelod o Bwyllgor Rheoleiddio

**1. Atebolrwydd:**

- Etholaeth Ynys Môn
- Y Cyngor llawn
- Cadeirydd y pwyllgor rheoleiddio

**2. Diben a gweithgareddau'r rôl**

**Deall natur y pwyllgor rheoleiddio a phenderfynu lled-gyfreithiol**

- Bod yn effro i natur led-gyfreithiol y pwyllgor rheoleiddio a'i benderfyniadau
- Meithrin digon o wybodaeth dechnegol, cyfreithiol a gweithdrefnol i allu cyfrannu at waith y pwyllgor mewn modd teg a chywir
- Bod yn drylwyr ac yn wrthrychol wrth dderbyn a rhoi sylw dyledus i gyngor arbenigol am gynnal cyfarfodydd ac achosion neu geisiadau unigol cyn cyfarfodydd y pwyllgor

**Cymryd rhan mewn cyfarfodydd, a phenderfynu**

- Cymryd rhan effeithiol yng nghyfarfodydd y pwyllgor rheoleiddio, gan ofalu ei fod yn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng ystyriaethau lleol ac argymhellion polisïau i ddibenion penderfynu effeithiol
- Dod i benderfyniadau cytbwys yn ôl yr wybodaeth briodol, yn ôl cylch gorchwyl y Pwyllgor sy'n cyd-fynd â gofynnion y gyfraeith, y cyfansoddiad a'r polisïau perthnasol

**Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau**

- Gofalu bod penderfyniadau'r pwyllgor a swyddogaeth yr aelod ei hun yn deilwng trwy gadw at y Côd Ymddygiad a gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill
- Hyrwyddo a chynnal llywodraethu da yn y Cyngor
- Deall swyddogaethau'r cynghorwyr, y swyddogion a'r cyrff allanol sy'n ymwneud â'r maes mae'r pwyllgor yn gyfrifol amdano
- Rhoi ymrwymiad i ymgymryd â hyfforddiant priodol
- Cydymffurfio ag unrhyw brotocalau a gymeradwyir gan y Pwyllgor Safonau
- Cydymffurfio ag unrhyw godau a phrotocolau perthnasol, gan gynnwys y Côd Ymddygiad i Aelodau a'r Protocol ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion

## 3. Gwerthoedd

Ymrwymo'n llawn i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

1. Anhunanoldeb
2. Gonestrwydd
3. Uniondeb a Phriodoldeb
4. Dyletswydd i gynnal y gyfraith
5. Stiwardiaeth
6. Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
7. Cydraddoldeb a Pharch
8. Didwylledd
9. Atebolrwydd
10. Arweinyddiaeth Gynhwysol
11. Gwerthfawrogiad o wahaniaeth diwylliannol
12. Llesiant a chynaliadwyedd cenedlaethau'r dyfodol
13. Adeiladu consensws



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

## Aelod o Bwyllgor Rheoleiddio – Manyleb Person

I gyflawni ei swyddogaeth yn ôl y disgrifiad ohoni, bydd angen y canlynol ar gadeirydd pob pwyllgor rheoleiddio:

**Deall natur y pwyllgor rheoleiddio a gwneud penderfyniadau lled-farnwrol**

- Uniondeb a'r gallu i roi barn o'r neilltu a gweithredu'n ddiduedd
- Gwybodaeth am gyfraith, polisi a gweithdrefnau ar gyfer y maes rheoleiddio/lled-farnwrol hwnnw
- Cynnal gwybodaeth
- Gwrthrychedd a barn

**Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau**

- Y gallu i wrando ac ystyried a pharchu barn cyfranwyr eraill
- Sgiliau siarad cyhoeddus da
- Sgiliau eiriolaeth da

**Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau**

- Gwybod a deall y Côd(au) Ymddygiad a phrotocolau.
- Gwybod gwerthoedd y Cyngor ac ymroi iddyn nhw.

**Disgrifiad o Rôl Cadeirydd y Pwyllgor Safonau**

1. **Atebolrwydd**

- I etholaeth Ynys Môn
- I'r Cyngor llawn

2. **Pwrpas a Gweithgareddau'r Rôl**

**Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad**

- Gweithredu o fewn gofynion technegol, cyfreithiol a gweithdrefnol er mwyn cadw golwg ar swyddogaethau'r Pwyllgor yn deg ac yn gywir
- Sicrhau trylwyredd a gwrthrychedd yn y pwyllgor, derbyn ac ymateb i gyngor proffesiynol ar y Côd Ymddygiad i Aelodau
- Dangos annibyniaeth, uniondeb a didueddrwydd wrth wneud penderfyniadau sy'n cyd-fynd â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi
- Darparu rheolaeth hyderus ac effeithiol mewn cyfarfodydd er mwyn hwyluso cynwysoldeb, cyfranogiad a gwneud penderfyniadau clir

**Arwain y Pwyllgor yn ei rôl yn:**

- hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig
- helpu'r holl gynghorwyr i lynu wrth y Côd Ymddygiad i Aelodau
- cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio'r Côd Ymddygiad i Aelodau
- monitro gweithrediad y Côd Ymddygiad i Aelodau
- cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Côd Ymddygiad i Aelodau
- rhoddi caniatâd arbennig i gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig
- rhoi sylw i unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos dros dro, ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a gyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- datblygu a chymhwyso'r Protocol Datrys Lleol
- Arfer y swyddogaethau hyn (uchod) mewn perthynas â chynghorau cymuned ac aelodau'r cynghorau cymuned hynny.
- cydweithio ag Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r Grŵp.
- monitro cydymffurfiad gan Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol â'r ddyletswydd i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r Grŵp. Cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddiant i Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol mewn perthynas â'r dyletswyddau hyn (o fis Mai 2022 ymlaen).
- darparu adroddiad blynyddol i'r Cyngor yn disgrifio sut y mae'r Pwyllgor wedi cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol (adroddiad cyntaf mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2022/23 yn ddyledus cyn gynted ag y bo modd ar ôl diwedd y flwyddyn). Gall yr adroddiad gynnwys unrhyw fater o fewn swyddogaethau'r Pwyllgor. Rhaid i'r adroddiad gynnwys:

- Sut y mae'r Pwyllgor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol, ac yn benodol, sut y mae'r Pwyllgor wedi monitro cydymffurfiad arweinwyr grwpiau â'u dyletswyddau i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r grŵp, a gwaith y Pwyllgor o ran cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddiant i arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â'r dyletswyddau hyn.
- I ba raddau y mae arweinwyr grwpiau wedi cydymffurfio â'u dyletswydd i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r grŵp.

- cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio Protocol y Cyngor ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion
- helpu'r cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig i lynu wrth Brotocol y Cyngor ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion
- cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â Phrotocol y Cyngor ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion
- monitro gweithrediad ac effeithiolrwydd adolygiadau perfformiad a chynlluniau datblygu aelodau a helpu i hyrwyddo cyfranogiad aelodau lle mae angen hynny
- monitro gweithrediad ac effeithiolrwydd adroddiadau blynyddol gan aelodau a helpu i hyrwyddo cyfranogiad aelodau lle mae angen hynny

**Llywodraethiant mewnol, safonau moesegol a pherthnasau**

- Sicrhau uniondeb proses gwneud penderfyniadau'r Pwyllgor a'u rôl eu hunain drwy lynu wrth y Côd Ymddygiad a gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethiant da gan y Cyngor
- Deall beth yw swyddogaethau aelodau, swyddogion a phartïon allanol eraill sy'n gweithredu o fewn maes cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau
- Sicrhau y gweithredir ar benderfyniadau'r Pwyllgor
- Os na all y Cadeirydd fynychu unrhyw gyfarfod o'r Pwyllgor, yr Is-Gadeirydd fydd yn ymgymryd â'r rôl. Os yw'r Is-Gadeirydd yn absennol, bydd cadeirydd yn cael ei ethol ar gyfer y cyfarfod o blith aelodau cyfetholedig eraill y Pwyllgor.

## 3. Gwerthoedd

Ymrwymo'n llawn i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

1. Anhunanoldeb
2. Gonestrwydd
3. Uniondeb a Phriodoldeb
4. Dyletswydd i gynnal y gyfraith
5. Stiwardiaeth
6. Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau

7. Cydraddoldeb a Pharch
8. Didwylledd
9. Atebolrwydd
10. Arweinyddiaeth Gynhwysol
11. Gwerthfawrogiad o wahaniaeth diwylliannol
12. Llesiant a chynaliadwyedd cenedlaethau'r dyfodol
13. Adeiladu consensws

## Disgrifiad o Rôl Aelod o'r Pwyllgor Safonau

1. **Atebolrwydd**

- Etholaeth Ynys Môn
- I'r Cyngor llawn
- I Gadeirydd y Pwyllgor Safonau

2. **Diben a gweithgareddau'r rôl**

**Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau**

- Cymryd rhan yn effeithiol mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Safonau
- Dod i benderfyniadau doeth a chytbwys, o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, yn unol â gofynion y gyfraith, y cyfansoddiad a pholisïau perthnasol, llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau
- Sicrhau gonestrwydd proses benderfyniadau'r Pwyllgor a'i rôl ei hun drwy gadw at y Côd Ymddygiad I Aelodau a gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill
- Hyrwyddo a chynnal llywodraethu da yn y Cyngor

**Mae'r amodau canlynol yn berthnasol i aelodau cynghorau cymuned:**

- Dim ond pan fydd yn cyflawni'r swyddogaethau hynny mewn perthynas â chynghorau cymuned ac aelodau cynghorau cymuned y bydd aelodau cynghorau cymuned yn cymryd rhan mewn gwrandawiadau / ceisiadau gerbron y Pwyllgor Safonau
- Ni fydd aelodau cynghorau cymuned yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Safonau pan fydd unrhyw fater yn ymwneud â'u cyngor cymuned yn cael ei ystyried

**Helpu'r Pwyllgor Safonau i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol a chefnogi'r Cadeirydd drwy:**

- hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig
- helpu'r cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig i lynu wrth y Côd Ymddygiad i Aelodau
- gynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio'r Côd Ymddygiad i Aelodau;
- fonitro gweithrediad y Côd Ymddygiad i Aelodau
- gynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr, aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Côd Ymddygiad i Aelodau
- roddi caniatadau arbennig i gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig
- roi sylw i unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos dros dro, ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a gyfeiriwyd i'r swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

- gyfrannu at ddatblygiad a chymhwysiad y Protocol Datrysiad Lleol
- arfer y swyddogaethau hyn (uchod) mewn perthynas â chynghorau cymuned ac aelodau'r cynghorau cymuned hynny
- gydweithio ag arweinwyr grwpiau gwleidyddol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r grŵp
- fonitro cydymffurfiad gan arweinwyr grwpiau gwleidyddol â'r ddyletswydd i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r grŵp. Cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddiant i arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â'r dyletswyddau hyn (o fis Mai 2022 ymlaen).
- ddarparu adroddiad blynyddol i'r Cyngor yn disgrifio sut y mae'r Pwyllgor wedi cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol **(adroddiad cyntaf mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2022/23 yn ddyledus cyn gynted ag y bo modd ar ôl diwedd y flwyddyn)**. Gall yr adroddiad gynnwys unrhyw fater o fewn swyddogaethau'r Pwyllgor. Rhaid i'r adroddiad gynnwys:

    - Sut y mae'r Pwyllgor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol, ac yn benodol, sut y mae'r Pwyllgor wedi monitro cydymffurfiad arweinwyr grwpiau â'u dyletswyddau i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r grŵp, a gwaith y Pwyllgor o ran cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddiant i arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â'r dyletswyddau hyn
    - I ba raddau y mae arweinwyr grwpiau wedi cydymffurfio â'u dyletswydd i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r grŵp

- gynnal archwiliadau rheolaidd o gofrestrau o ddiddordeb y cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig
- gynnal ymchwiliadau lleol i honiadau o dorri'r Côd Ymddygiad gan gynghorwyr lle mae hynny'n briodol
- ystyried (mewn ymgynghoriad gyda'r Swyddog Monitro) unrhyw faterion eraill sy'n briodol ac yn angenrheidiol er mwyn cynnal y safon uchaf o ymddygiad gan Gynghorwyr
- gynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio Protocol y Cyngor ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion
- helpu'r cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig i lynu wrth Brotocol y Cyngor ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion
- gynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr, aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â Phrotocol y Cyngor ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion
- fonitro gweithrediad ac effeithiolrwydd adolygiadau perfformiad a chynlluniau datblygu aelodau a helpu i hyrwyddo cyfranogiad aelodau lle mae angen hynny
- fonitro gweithrediad ac effeithiolrwydd adroddiadau blynyddol gan aelodau a helpu i hyrwyddo cyfranogiad aelodau lle mae angen hynny
- feddu ar wybodaeth dechnegol, gyfreithiol a gweithdrefnol sy'n ddigonol ar gyfer gwneud cyfraniad teg a phriodol i swyddogaeth y Pwyllgor
- fod yn drylwyr ac yn wrthrychol pan yn derbyn ac yn ymateb i gyngor proffesiynol wrth gynnal cyfarfodydd a thrafod materion gerbron y Pwyllgor

**Llywodraethiant mewnol, safonau moesegol a pherthnasau**

- Sicrhau uniondeb proses gwneud penderfyniadau'r Pwyllgor a'u rôl nhw eu hunain drwy lynu wrth y Côd Ymddygiad a gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethiant da gan y Cyngor
- Deall beth yw swyddogaethau aelodau, swyddogion a phartïon allanol eraill sy'n gweithredu o fewn maes cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau
- Gofyn am gyngor proffesiynol gan y Swyddog Monitro ar unrhyw faterion sydd angen eu hegluro/trafod

## 3. Gwerthoedd

Ymrwymo'n llawn i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

1. Anhunanoldeb
2. Gonestrwydd
3. Uniondeb a Phriodoldeb
4. Dyletswydd i gynnal y gyfraith
5. Stiwardiaeth
6. Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
7. Cydraddoldeb a Pharch
8. Didwylledd
9. Atebolrwydd
10. Arweinyddiaeth Gynhwysol
11. Gwerthfawrogiad o wahaniaeth diwylliannol
12. Llesiant a chynaliadwyedd cenedlaethau'r dyfodol
13. Adeiladu consensws

### Disgrifiad o Rôl Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

**1. Atebolrwydd**

- I etholaeth Ynys Môn
- I'r Cyngor llawn

**2. Diben a Gweithgareddau'r Rôl**

**Darparu arweiniad a chyfeiriad**

- Dangos agwedd annibynnol, onest a diduedd wrth benderfynu ar faterion yn unol â gofynion y gyfraith, y cyfansoddiad a pholisïau perthnasol
- Rheoli cyfarfodydd mewn modd hyderus ac effeithiol er mwyn hwyluso cynwysoldeb, cyfranogiad a phenderfyniadau eglur
- Cydymffurfio â Chôd Ymddygiad y Cyngor
- Gweithio yn ôl Cylch Gorchwyl y Pwyllgor
- Cydweithio ag uwch swyddogion y Cyngor, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Archwilio Mewnol (neu swyddog cyfatebol), i gytuno ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol ac i drefnu rhaglenni ar gyfer y Pwyllgor
- Cydweithio ag aelodau eraill y Cyngor i sicrhau bod y Pwyllgor Gwaith, y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Sgriwtini yn ymwybodol o waith y Pwyllgor, a'i fod yn cyd-fynd â'u gwaith hwy yn ogystal ag yn cynnal annibyniaeth priodol.
- Hyrwyddo rôl y Pwyllgor o fewn y Cyngor
- Adrodd i'r Cyngor llawn yn ôl y gofyn
- Cymryd rhan yn y gweithgareddau hyfforddiant a datblygu y mae angen eu cyflawni ar gyfer y rôl, a chyfrannu iddynt
- Helpu aelodau'r Pwyllgor i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y rôl
- Arwain y Pwyllgor wrth ymateb i unrhyw argymhellion a wneir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

**Arwain y Pwyllgor wrth gyflawni ei rôl o ran adolygu a chraffu ar faterion ariannol y Cyngor**

- Paratoi adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol y Cyngor
- Cadw golwg ar drefniadau archwilio mewnol ac allanol y Cyngor
- Cydweithio ag archwilwyr mewnol ac allanol
- Adolygu'r datganiadau ariannol a baratowyd gan y Cyngor a'u cymeradwyo pan gaiff pwerau eu dirprwyo, gan gynnwys paratoi adroddiadau ac argymhellion perthnasol

**Arwain y Pwyllgor wrth gyflawni ei rôl o ran cyfrannu i berfformiad effeithiol y Cyngor**

- Adolygu adroddiad drafft Hunan-Asesiad Blynyddol y Cyngor. Gwneud argymhellion am newidiadau i'r casgliadau neu'r camau gweithredu y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd
- Gwneud argymhellion mewn ymateb i adroddiad drafft Asesiad Perfformiad y Cygnor gan Banel (a gomisiynir unwaith y tymor **o fis Mai 2022 ymlaen**)
- Adolygu ac asesu gallu'r Cyngor i ddelio â chwynion yn effeithiol
- Paratoi adroddiadau ac argymhellion i'r Cyngor am allu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol

**Arwain y Pwyllgor wrth gyflawni ei rôl o ran Adolygu ac asesu trefniadau Llywodraethu, Rheoli Risg a Rheolaeth y Cyngor**

- Adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol y Cyngor
- Paratoi adroddiadau ac argymhellion i'r Cyngor ar addasrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny
- Adolygu ac asesu'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â llywodraethu corfforaethol, a bodloni'ch hun bod datganiadau sicrwydd y Cyngor, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn adlewyrchu'r amgylchedd risg ac unrhyw gamau gweithredu sydd angen eu cymryd i'w wella.

## 3. Gwerthoedd

Ymrwymo'n llawn i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

1. Anhunanoldeb
2. Gonestrwydd
3. Uniondeb a Phriodoldeb
4. Dyletswydd i gynnal y gyfraith
5. Stiwardiaeth
6. Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
7. Cydraddoldeb a Pharch
8. Didwylledd
9. Atebolrwydd
10. Arweinyddiaeth Gynhwysol
11. Gwerthfawrogiad o wahaniaeth diwylliannol
12. Llesiant a chynaliadwyedd cenedlaethau'r dyfodol
13. Adeiladu consensws

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

## Disgrifiad o Rôl Aelod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

### 1. Atebolrwydd

- I etholaeth Ynys Môn
- I'r Cyngor llawn
- I Gadeirydd y Pwyllgor

### 2. Diben a Gweithgareddau'r Rôl

**Cymryd Rhan yng nghyfarfodydd y Pwyllgor a Gwneud Penderfyniadau**

- Dangos annibyniaeth, uniondeb a didueddrwydd wrth wneud penderfyniadau yn unol â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisïau perthnasol
- Rhoi ystyriaeth i ofynion Cadeirydd y Pwyllgor a chyngor proffesiynol uwch swyddogion yr awdurdod, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Archwilio Mewnol (neu swyddog cyfatebol)
- Cydymffurfio â Chod Ymddygiad y Cyngor
- Gweithio yn ôl Cylch Gorchwyl y Pwyllgor
- Cyfrannu tuag at ddatblygiad rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor
- Hyrwyddo rôl y Pwyllgor o fewn y Cyngor
- Adrodd i'r Cyngor yn ôl y gofyn
- Ymateb i unrhyw argymhellion a wneir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau hyfforddiant a datblygu sy'n ofynnol ar gyfer y rôl

**Cyfrannu i waith y Pwyllgor wrth gyflawni ei rôl o ran:**

**Adolygu a chraffu ar faterion ariannol y Cyngor**

- Paratoi adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol y Cyngor
- Cadw golwg ar drefniadau archwilio mewnol ac allanol y Cyngor
- Cydweithio ag archwilwyr mewnol ac allanol
- Adolygu'r datganiadau ariannol a baratowyd gan y Cyngor a'u cymeradwyo pan gaiff pwerau eu dirprwyo, gan gynnwys paratoi adroddiadau ac argymhellion perthnasol

**Cyfrannu i berfformiad effeithiol y Cyngor**

- Adolygu Hunan-Asesiad Blynyddol drafft y Cyngor a gwneud argymhellion am newidiadau i'r casgliadau neu'r camau gweithredu y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd
- Gwneud argymhellion mewn ymateb i'r adroddiad drafft ar Asesiad Perfformiad y Cyngor gan Banel (a gomisiynir unwaith y tymor **o fis Mai 2022 ymlaen**).

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

- Adolygu ac asesu gallu'r Cyngor i ddelio â chwynion yn effeithiol
- Paratoi adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r Cyngor i ddelio â chwynion yn effeithiol.

**Adolygu ac asesu trefniadau Llywodraethu, Rheoli Risg a Rheolaeth yr awdurdod**

- Adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol y Cyngor.
- Paratoi adroddiadau ac argymhellion i'r Cyngor ar addasrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny
- Adolygu ac asesu'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â llywodraethu corfforaethol, a bodloni'ch hun bod datganiadau sicrwydd y Cyngor, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn adlewyrchu'r amgylchedd risg ac unrhyw gamau gweithredu sydd angen eu cymryd i'w wella.

## 3. Gwerthoedd

Ymrwymo'n llawn i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

1. Anhunanoldeb
2. Gonestrwydd
3. Uniondeb a Phriodoldeb
4. Dyletswydd i gynnal y gyfraith
5. Stiwardiaeth
6. Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
7. Cydraddoldeb a Pharch
8. Didwylledd
9. Atebolrwydd
10. Arweinyddiaeth Gynhwysol
11. Gwerthfawrogiad o wahaniaeth diwylliannol
12. Llesiant a chynaliadwyedd cenedlaethau'r dyfodol
13. Adeiladu consensws

# Disgrifiad o Swyddogaeth Cadeirydd Pwyllgor Sgriwtini

1. **Atebolrwydd:**

- Etholaeth Ynys Môn
- Y Cyngor llawn.
- Y cyhoedd

2. **Diben a gweithgareddau**

Ar ran Aelodau Sgriwtini:

Arwain trosolwg a sgriwtini effeithiol dan arweiniad Cynghorwyr sy'n ystyried barn y cyhoedd, partneriaid a rheoleiddwyr ac sy'n cydbwyso blaenoriaethu pryderon cymunedol yn erbyn materion o risg a phwysigrwydd strategol. Sicrhau bod rôl a statws sgtiwtini'n cael eu hyrwyddo fel elfen bwysig o wasanaeth cyhoeddus effeithiol ac atebolrwydd. Meithrin perthnasoedd ymddiriedus, fel sail i adeiladu gwaith tîm effeithiol ymhlith aelodau anweithredol er mwyn annog awydd i ddatblygu gwaith Sgriwtini ymhellach.

Hefyd, sicrhau bod Sgriwtini yn gweithredu'n anwleidyddol ac yn delio'n effeithiol â materion gwleidyddol sensitif, tensiwn a gwrthdaro. Bydd gan y Cadeirydd gyfraniad pwysig hefyd at sicrhau bod cyfarfodydd a gweithgareddau'n cael eu cynllunio'n dda, eu cadeirio'n effeithiol a'u bod yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

**Rhoi arweiniad a chyfeiriad**

- Arwain y tîm o Aelodau mewn modd hyderus ac effeithiol.
- Hyrwyddo swyddogaeth pwyllgorau sgriwtini yn y Cyngor a thu allan iddo, gan gysylltu'n effeithiol ag aelodau a staff y Cyngor a'i bartneriaid fel ei gilydd.
- Amlygu dull sgriwtini gwrthrychol ac anwleidyddol, yn ôl tystiolaeth briodol.
- Gwerthuso effaith a gwerth ychwanegol gwaith sgriwtini a nodi meysydd mae modd eu gwella.
- Datblygu perthynas ymddiriedus gyda'r Pwyllgor Gwaith/Tîm Arweinyddiaeth er mwyn sicrhau blaen raglen waith Sgriwtini sy'n addas i'r pwrpas ac yn ychwanegu gwerth at waith y Cyngor.

**Rheoli'r flaen raglen waith**

- Llunio rhaglen waith cytbwys ar gyfer y pwyllgor sy'n cynnwys craffu cyn gwneud penderfyniadau, adolygu a datblygu polisïau, monitro perfformiad, ymchwilio a dal y Pwyllgor Gwaith i gyfrif
- Gofalu bod y rhaglen yn cymryd ffactorau perthnasol i ystyriaeth megis blaen raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a phwyllgorau eraill, blaenoriaethau a risgiau strategol (Cynllun Corfforaethol), a materion cymunedol perthnasol.

- Gofalu bod y rhaglen waith yn cael ei chyflawni.
- Rhoi adroddiadau am y cynnydd ynglŷn â'r rhaglen waith i'r Cyngor, a chyrff eraill lle bo'n briodol.
- Cysylltu â swyddogion, Cynghorwyr eraill a chynrychiolwyr y gymuned i gael yr adnoddau priodol a chyflawni'r rhaglen waith.
- Darparu cyfleoedd cyfnodol yn y calendr i Aelodau hunanwerthuso er mwyn galluogi myfyrio a dysgu

**Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol**

- Pennu rhaglenni sydd ag amcanion a deilliannau eglur i bob cyfarfod.
- Rheoli'r ffordd mae'r cyfarfod yn mynd rhagddo, gan ofalu bod amcanion y cyfarfod yn cael eu cyflawni a bod pawb yn cadw at y côd ymddygiad, y rheolau gweithdrefn a gofynion cyfansoddiadol eraill.
- Gofalu bod y gwaith paratoi priodol yn cael ei wneud ymlaen llaw, yn barod ar gyfer cyfarfodydd.
- Gofalu bod pawb sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod yn cael y cyfle i gyfrannu'n briodol.

**Arwain y gymuned**

- Bod yn ddolen gyswllt rhwng y Cyngor, y gymuned a chyrff allanol ynglŷn â'r swyddogaeth sgriwtini a throsolwg.
- Meithrin amgyffred o waith craffu yn y gymuned ac annog pobl i gydio ynddo.
- Adnabod materion perthnasol yn y gymuned i ddibenion sgriwtini gan Aelodau.
- Hybu cyfleoedd i bobl gysylltiedig allanol gymryd rhan yn y gwaith craffu, e.e. tystion arbenigol, sefydliadau sy'n bartneriaid a'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau.

**Ymglymiad a datblygiad aelodau'r Pwyllgor**

- Annog aelodau'r Pwyllgor i gyfrannu'n effeithiol – yn y Pwyllgor a'r grwpiau tasg a gorffen fel ei gilydd.
- Asesu'r hyn mae'r pwyllgor a'i aelodau unigol wedi'i gyflawni a hwyluso'r gweithgareddau datblygu priodol.
- Hyrwyddo pwysigrwydd dysgu a datblygu.
- Hyrwyddo swyddogaeth sgriwtini effeithiol a model rôl
- Cefnogi aelodau'r Pwyllgor i gyflawni'n adeiladol rôl cyfaill beirniadol

## 3. Gwerthoedd

Ymrwymo'n llawn i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

1. Anhunanoldeb
2. Gonestrwydd
3. Uniondeb a Phriodoldeb
4. Dyletswydd i gynnal y gyfraith

5. Stiwardiaeth
6. Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
7. Cydraddoldeb a Pharch
8. Didwylledd
9. Atebolrwydd
10. Arweinyddiaeth Gynhwysol
11. Gwerthfawrogiad o wahaniaeth diwylliannol
12. Llesiant a chynaliadwyedd cenedlaethau'r dyfodol
13. Adeiladu consensws

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## Gofynion Swyddogaeth Cadeirydd Pwyllgor Sgriwtini

I gyflawni ei swyddogaeth yn ôl y disgrifiad ohoni, bydd angen y canlynol ar Gadeirydd Pwyllgor Sgriwtini:

### Rhoi arweiniad a chyfeiriad

- Deall diben a swyddogaethau'r Cyngor.
- Deall swyddogaeth gwaith sgriwtini, cylch gorchwyl y pwyllgor, swyddogaeth y cadeirydd ac agweddau eraill trefniadau democrataidd awdurdodau cyhoeddus.
- Deall trefniadau cynorthwyo cynghorwyr.
- Deall blaenoriaethau'r Cyngor a'r risgiau perthnasol.
- Gallu llunio rhaglenni gwaith.
- Deall materion cymunedol.
- Agwedd wrthrychol.
- Trafod telerau a meithrin consenswys.
- Gallu meithrin perthynas adeiladol â'r Pwyllgor Gwaith a rhai eraill sy'n gwneud penderfyniadau a bod yn 'gyfaill beirniadol' iddynt.
- Sgiliau cyfathrebu effeithiol
- Parodrwydd i ymgymgryd â hyffordiant, yn ôl yr angen

### Rheoli'r rhaglen waith

- Gallu rheoli prosiectau ac adnoddau.
- Gallu rheoli pobl
- Gallu blaenoriaethu.
- Gallu rhoi adroddiadau am gynnydd i wahanol garfanau trwy gwahanol gyfryngau

### Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol

- Deall a defnyddio protocolau cyfarfodydd, codau ymddygiad, rheolau gweithdrefn a gofynion cyfansoddiadol eraill.
- Gallu llywio cyfarfodydd yn effeithiol, gan reoli'r rhaglen a chyflawni'r nodau.
- Gallu hwyluso trafodaethau effeithiol.
- Gallu gwrando a holi'n effeithiol.
- Sgiliau effeithiol o ran rheoli amser

### Arwain y gymuned

- Deall hanfod arwain y gymuned.
- Gwybod materion a disgwyliadau lleol.
- Gallu cydweithio'n effeithiol â'r trigolion i gyd, gan feithrin amgyffred o waith sgriwtini yn eu plith a'u hannog i gydio ynddo.
- Adnabod unigolion a mudiadau yn y gymuned, yn arbennig y rhai sydd ar yr ymylon gan amlaf.

# Disgrifiad o Rôl Aelod o Bwyllgor Sgriwtini

## 1. Atebol i:

- Etholwyr Ynys Môn
- Cadeirydd y pwyllgor sgriwtini perthnasol.
- Y Cyngor llawn.

## 2. Diben a gweithgareddau

- Cyfrannu at graffu effeithiol a arweinir gan Gynghorwyr, nad yw'n wleidyddol. Hefyd, cymryd rhan lawn yng ngweithgareddau'r Pwyllgor Sgriwtini, datblygu a chyflawni ei flaen raglen waith ac unrhyw baneli sgriwtini neu grwpiau tasg a gorffen cysylltiedig.

**Craffu a datblygu polisïau**

- Helpu i ddatblygu meysydd polisi'r Cyngor trwy graffu polisi drafft, a gwella a mireinio polisiau sy'n bodoli eisoes.
- Herio polisïau yn ôl tystiolaeth gadarn megis y gyfraith neu flaenoriaethau gwleidyddol lleol.
- Asesu effaith polisïau cyfredol ac adnabod meysydd i'w gwella.
- Adnabod lle gallai fod angen polisïau newydd i fynd i'r afael â deddfwriaeth sydd i ddod

**Gofalu bod y Pwyllgor Gwaith yn atebol, a monitro perfformiad/trefniadau darparu gwasanaethau**

- Monitro yr hyn mae darparwyr mewnol ac allanol yn ei gyflawni yn ôl safonau a thargedau perthnasol, gan gynnwys holi'r Pwyllgor Gwaith a'r uwch swyddogion ar gyflawni targedau.
- Helpu i nodi a lleddfu unrhyw risgiau.
- Nodi achosion tangyflawni neu berfformiad gwael a mynd i'r afael â nhw.
- Monitro cynlluniau gweithredu neu argymhellion yn dilyn adroddiadau archwilwyr allanol, arolygon neu adroddiadau rheoleiddiol
- Cloriannu penderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith a chodi amheuon trwy eu 'galw i mewn' lle bo'n briodol.
- Adeiladu ymddiriedaeth gyda'r Pwyllgor Gwaith fel y gellir anfon materion priodol i'w harchwilio am adolygiad cyn i'r Pwyllgor Gwaith wneud penderfyniad terfynol

**Hyrwyddo gwaith trosolwg a sgriwtini**

- Hyrwyddo swyddogaeth pwyllgorau sgriwtini yn y Cyngor a thu allan iddo, gan feithrin cysylltiadau mewnol ac allanol sy'n effeithiol gyda swyddogion ac aelodau eraill a pherthnasau allanol gyda chynrychiolwyr cymunedau.
- Arddangos ymagwedd wrthrychol anwleidyddol sy'n seiliedig ar dystiolaeth at drosolwg a chraffu, trwy ddefnyddio ystod eang o ymchwil mewn unrhyw waith a wneir gan gynnwys ffynonellau allanol o ffynonellau gwybodaeth y tu allan i'r Cyngor.

- Ychwanegu gwerth at brosesau penderfynu a threfniadau darparu gwasanaethau'r Cyngor trwy waith craffu effeithiol.
- Gallu dangos lle mae craffu yn gwneud gwahaniaeth trwy ei gyfranogiad

**Arwain y gymuned**

- Defnyddio gwaith sgriwtini i fynd i'r afael â materion yn y gymuned ac ymgysylltu â'r cyhoedd mewn blaen raglenni gwaith.
- Annog pobl gysylltiedig i gymryd rhan yng ngwaith yr Awdurdod.
- Cynorthwyo i ddatblygu datrysiadau polisi lleol ymarferol a derbyniol.
- Hwyluso trafodaethau ymhlith cymunedau a phobl gysylltiedig eraill am flaenoriaethau, amcanion a pherfformiad.
- Cymryd persbectif sir gyfan wrth ymdrin â materion

**Cymryd rhan mewn sgriwtini ar y cyd**

- Gweithio o fewn y cylch gorchwyl a'r protocolau priodol sy'n llywodraethu cydweithio ym maes sgriwtini
- Cymhwyso'r profion a'r meini prawf priodol wrth benderfynu a ddylid cynnal cyd-graffu ai peidio
- Cyfrannu at graffu ar gyrff a phartneriaethau rhanbarthol ac isranbarthol
- Annog cyfranogiad y cyhoedd mewn cyd-graffu
- Gweithio'n effeithiol gyda chraffwyr bartneriaidr o awdurdodau eraill a sefydliadau allanol

**Cymryd rhan mewn cyfarfodydd**

- Paratoi'n ddigonol ac yn briodol ar gyfer cyfarfodydd trwy sesiynau ymchwil a sesiynau paratoi cyn cyfarfod.
- Cymryd rhan mewn modd rhagweithredol ac effeithiol, yn ôl gwybodaeth berthnasol, gan gymryd i ystyriaeth y Côd Ymddygiad, rheolau gweithdrefn a gofynion cyfansoddiadol eraill.
- Arddangos sgiliau ymholi craffu effeithiol mewn cwestiynu, gwrando a thrîn gwybodaeth
- Bod yn anwleidyddol
- Canolbwyntio ar ganlyniadau / gwneud gwahaniaeth trwy gyfranogiad
- Galluogi llais a phryderon y cyhoedd i gael eu clywed

## 3. Gwerthoedd

Ymrwymo’n llawn i werthoedd y cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

1. Anhunanoldeb
2. Gonestrwydd
3. Uniondeb a Phriodoldeb
4. Dyletswydd i gynnal y gyfraith
5. Stiwardiaeth
6. Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau

7. Cydraddoldeb a Pharch
8. Didwylledd
9. Atebolrwydd
10. Arweinyddiaeth Gynhwysol
11. Gwerthfawrogiad o wahaniaeth diwylliannol
12. Llesiant a chynaliadwyedd cenedlaethau'r dyfodol
13. Adeiladu consensws

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

## Gofynion Swyddogaeth Aelod o Bwyllgor Sgriwtini

I gyflawni ei swyddogaeth yn ôl y disgrifiad ohoni, bydd angen y canlynol ar bob aelod o'r pwyllgor:

### Cymryd rhan gyflawn yng ngwaith y pwyllgor

- Deall diben a swyddogaeth pwyllgor sgriwtini, yn ogystal â chylch gorchwyl ei bwyllgor ei hun a phwyllgorau eraill.
- Deall trefniadau cynorthwyo cynghorwyr.
- Parodrwydd i weithio o dan arwainiad y cadeirydd.
- Parodrwydd i ymgymgryd â hyfforddiant yn ôl yr angen

### Adolygu a llunio polisïau

- Gwybod polisïau cyfredol a gallu eu dadansoddi.
- Deall yr arferion gorau.
- Deall cyd-destunau deddfau a pholisïau gwladol a lleol.

### Monitro perfformiad a threfniadau darparu gwasanaethau, a gofalu bod y cabinet yn atebol

- Deall hanfod Rhaglen Gwella Cymru a'r trefniadau perthnasol ar gyfer asesu peryglon.
- Deall egwyddorion ac arferion rheoli perfformiad.
- Deall trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor.
- Gallu dadansoddi data a chwestiynu'r hyn sydd wedi'i gyflawni.
- Deall trefniadau 'galw i mewn'.

### Hyrwyddo gwaith sgriwtini

- Gallu trafod telerau a meithrin cysyniad.
- Gallu gweithredu'n wrthrychol yn ôl tystiolaeth briodol.

### Arwain y gymuned

- Deall hanfod arwain y gymuned.
- Gwybod materion a disgwyliadau lleol.
- Gallu cydweithio'n effeithiol â'r trigolion i gyd, gan feithrin amgyffred o waith craffu yn eu plith a'u hannog i gydio ynddo.
- Adnabod unigolion a mudiadau yn y gymuned, yn arbennig y rhai sydd ar yr ymylon gan amlaf.

### Cymryd rhan mewn cyfarfodydd

- Gallu dehongli gwybodaeth a data o amryw ffynonellau.
- Deall a defnyddio protocolau cyfarfodydd, codau ymddygiad, rheolau gweithdrefn a gofynion cyfansoddiadol eraill.
- Gallu cymryd rhan gyflawn mewn cyfarfodydd, gan gynnwys gwrando, holi a siarad yn effeithiol.

# Disgrifiad o Rôl Aelod Cyfetholedig o Bwyllgor Sgriwtini

**Cyd-destun Lleol:**
Mae Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn yn gwneud darpariaeth ar gyfer penodi aelodau cyfetholedig â hawl i bleidleisio ac aelodau cyfetholedig heb hawl i bleidleisio i wasanaethu ar y Pwyllgorau Sgriwtini.

**Materion Addysg:**
Bydd pob Pwyllgor Sgriwtini perthnasol sy'n delio gyda materion addysg yn cynnwys y cynrychiolwyr cyfetholedig gyda hawliau pleidleisio canlynol ymysg eu haelodaeth:

- Un cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru
- Un cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig
- Dau gynrychiolydd rhieni (1 o'r sector cynradd; 1 o'r sector ysgolion uwchradd/arbennig)

Pan fo'r Pwyllgor Sgriwtini yn ymdrin â materion eraill, ni fydd y cynrychiolwyr hyn yn pleidleisio ar y materion eraill hynny ac ni allant fynychu ond fel Aelodau cyfetholedig o'r Pwyllgor i drafod y materion eraill hynny os gwahoddir hwy i wneud hynny.

**1. Atebolrwydd:**

- I Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini perthnasol
- I'r cyrff y maent yn eu cynrychioli
- I gyrff rheoleiddio allanol (ee Estyn)

**2. Pwrpas y rôl a swyddogaethau**

Mynegi arddull Sgriwtini sy'n wrthrychol ac yn seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n anwleidyddol drwy:

- gymryd rhan lawn yng ngweithgareddau Sgriwtini, cyflawni rhaglenni gwaith ac unrhyw dasg gysylltiedig â grwpiau tasg a gorffen sy'n berthnasol i'r maes
- gynrychioli barn y sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth ddelio gyda phynciau perthnasol
- gyfrannu gwybodaeth neu sgiliau fydd yn arwain at graffu yn drwyadl ac yn wrthrychol ar y materion dan sylw

**Adolygu a datblygu polisi**

Wrth ddelio gyda phynciau penodol, perthnasol:

- cynorthwyo i greu, datblygu, gwella a mireinio polisi'r Cyngor
- cyfrannu gwybodaeth arbenigol a / neu sgiliau i'r broses Sgriwtini a / neu ddod ag elfen o her allanol drwy gynrychioli barn allanol
- asesu effaith polisi presennol

**Monitro perfformiad a darparu gwasanaeth**

Wrth ddelio gyda phynciau penodol, perthnasol:

- monitro perfformiad darparwyr mewnol ac allanol yn erbyn safonau a thargedau e.e. mewn perthynas ag addysg neu adfywio
- cyfrannu at y gwaith o nodi risgiau a chamau lliniaru
- ymchwilio i'r hyn sy'n achosi perfformiad gwael a rhoi sylw i'r materion hynny

**Hyrwyddo gwaith sgriwtini**

- ymagwedd at Sgriwtini sy'n wrthrychol ac yn seiliedig ar dystiolaeth
- ychwanegu gwerth i benderfyniadau a darpariaeth gwasanaeth yr Awdurdod drwy sgriwtini effeithiol
- ar gais y Cyngor, mynychu sesiynau hyfforddiant / datblygu yr ystyr yn berthnasol i'r rôl

**Arweinyddiaeth gymunedol**

- annog rhanddeiliaid i gymryd rhan yng ngwaith yr Awdurdod
- datblygu atebion polisi lleol sy'n hyfyw a derbyniol wrth ddelio gyda materion perthnasol, penodol
- creu dialog ynghylch blaenoriaethau, amcanion a pherfformiad ymysg rhanddeiliaid

**Cymryd rhan mewn cyfarfodydd**

- paratoi yn ddigonol ac yn briodol ar gyfer cyfarfodydd drwy ddarllen papurau pwyllgor ymlaen llaw
- cymryd rhan mewn modd rhagweithiol, gwybodus ac effeithiol, gan gymryd i ystyriaeth y Côd Ymddygiad, Cyfansoddiad y Cyngor a gofynion cyfansoddiadol eraill.

## 3. Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd a ganlyn mewn swydd gyhoeddus:

1. Anhunanoldeb
2. Gonestrwydd
3. Uniondeb a Phriodoldeb
4. Dyletswydd i gynnal y gyfraith
5. Stiwardiaeth
6. Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
7. Cydraddoldeb a Pharch
8. Didwylledd
9. Atebolrwydd
10. Arweinyddiaeth Gynhwysol
11. Gwerthfawrogiad o wahaniaeth diwylliannol
12. Llesiant a chynaliadwyedd cenedlaethau'r dyfodol
13. Adeiladu consensws

# Disgrifiad o Rôl Arweinydd Gwrthblaid

## 1. Atebolrwydd:

- Y Grwp sy'n enwebu

## 2. Diben a gweithgareddau'r Rôl

### Rhoi arweiniad gwleidyddol i wrthblaid

- Bod yn bennaeth gwleidyddol; prif lefarydd gwrthblaid y Cyngor ac arwain unrhyw Bwyllgor Gwaith Cysgodol
- Rhoi arweiniad wrth herio polisïau'r Cyngor yn adeiladol
- Herio delfryd y Cyngor a'r gymuned yn adeiladol lle bo'n briodol
- Rhoi arweiniad cryf a chlir wrth gydlynu trefniadau amgen ar gyfer polisïau, strategaethau a gwasanaethau

### Cynrychioli gwrthblaid y Cyngor

- Cynrychioli grwp gwrthblaid y Cyngor yn ôl safonau uchel a bod yn bennaeth cryf, medrus a huawdl wrth wneud hynny
- Cynrychioli'r Cyngor mewn cyrff allanol

### Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau

- Hyrwyddo a chynnal llywodraethu da ynglŷn â'r Cyngor a'i waith
- Arwain y gymuned a hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar
- Hyrwyddo a chynnal llywodraeth agored a thryloyw
- Meithrin a chadw cysylltiadau teilwng, priodol ac effeithiol â gweithwyr y Cyngor
- Cadw y Côd Ymddygiad i Aelodau, Protocol Aelodau/Swyddogion a'r safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus

## 3. Gwerthoedd

Ymrwymo'n llawn i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

1. Anhunanoldeb
2. Gonestrwydd
3. Uniondeb a Phriodoldeb
4. Dyletswydd i gynnal y gyfraith
5. Stiwardiaeth
6. Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
7. Cydraddoldeb a Pharch
8. Didwylledd
9. Atebolrwydd
10. Arweinyddiaeth Gynhwysol
11. Gwerthfawrogiad o wahaniaeth diwylliannol
12. Llesiant a chynaliadwyedd cenedlaethau'r dyfodol
13. Adeiladu consensws

## Gofynion Rôl Arweinydd Gwrthblaid

I gyflawni ei swyddogaeth yn ôl y disgrifiad ohoni, fe fydd angen y canlynol ar arweinydd gwrthblaid:

### Wrth roi arweiniad gwleidyddol i'r wrthblaid

- Gwybod cryfderau'r gymuned, meysydd i'w gwella a'r prif faterion
- Deall y berthynas rhwng gwleidyddiaeth wladol a lleol
- Bod yn effro i'r materion sy'n wynebu'r Cyngor
- Deall strategaethau, polisïau a gweithgareddau'r Cyngor
- Gallu cwestiynu strategaethau, polisïau a gweithgareddau o'r fath

### Wrth gynrychioli gwrthblaid y Cyngor

- Medrau rhagorol ynghylch cyfathrebu â'r cyfryngau, y trigolion lleol a chynulleidfaoedd ehangach.
- Medrau da ynghylch siarad yn gyhoeddus
- Meddwl craff a chreadigol – dawn darogan
- Medrau arwain

### Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau

- Deall swyddogaethau cynghorwyr, swyddogion ac amryw asiantaethau
- Parch at amryw garfanau ac unigolion, ac awydd i gydweithio â nhw
- Gwybod a deall Côd Ymddygiad y Cynghorwyr a Phrotocol y Cynghorwyr a'r Swyddogion
- Gwybod gwerthoedd y Cyngor ac ymroi iddyn nhw

# Disgrifiad o Rôl Arweinydd Grŵp Gwleidyddol

## 1. Atebolrwydd

I'r Grŵp a'i enwebodd

## 2. Diben a Gweithgareddau'r Rôl

### Darparu arweiniad gwleidyddol i'r Grŵp

- Bod yn arweinydd gwleidyddol amlwg ac yn esiampl dda i'r Grŵp
- Bod yn brif lefarydd gwleidyddol y Grŵp
- Os yw'r Grŵp mewn grym, darparu arweinyddiaeth Plaid Wleidyddol wrth ddatblygu gweledigaeth neu bolisiau'r Cyngor. Os yw'n wrthblaid, darparu her adeiladol a dewisiadau amgen i weledigaeth a pholisiau'r Grŵp Gwleidyddol sydd mewn grym
- Cynnig amrywiaeth o safbwyntiau o fewn y Grŵp Gwleidyddol wrth lunio polisïau
- Integreiddio a chynrychioli'r Grŵp Gwleidyddol ar lefel leol
- Cydweithio â Grwpiau Gwleidyddol eraill pan fo hynny'n briodol, yn enwedig mewn materion nad ydynt yn ymwneud â Gwleidyddiaeth Blaid
- Cadeirio a/neu mynychu cyfarfodydd pan fo wedi'i benodi i rôl gynrychiadol o fewn y Cyngor
- Cysylltu â chynrychiolwyr lleol a rhanbarthol eraill y blaid, os yw'n berthnasol. Bod yn llais sy'n cynrychioli'r Grŵp, er enghraifft a phan fo'n berthnasol, wrth ddelio â sefydliadau allanol

### Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau:

- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da yn y Cyngor a'i waith
- Darparu arweiniad cymunedol a hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraeth agored a thryloyw
- Hyrwyddo, cefnogi a chadw cysylltiadau parchus, priodol ac effeithiol â gweithwyr ac aelodau eraill y Cyngor. Hyrwyddo, cefnogi a chadw at y Côd Ymddygiad i Aelodau, Protocol Aelodau/Swyddogion a'r safonau uchaf o ran ymddygiad mewn swydd gyhoeddus
- Annog sylw dyledus i'r Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus/cwrteisi mewn bywyd cyhoeddus
- Cymryd rhan mewn cyfleoedd datblygu perthnasol ac annog aelodau'r Grŵp i gymryd rhan
- Gosod disgwyliadau clir o ran ymddygiad aelodau'r grŵp a herio unrhyw ymddygiad amhriodol
- Hyrwyddo amrywiaeth ymysg aelodau'r Grŵp
- Annog aelodau'r Grŵp i hawlio cyflogau ac ad-daliadau sy'n ddyledus iddynt yn unol â phenderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW)

**Dyletswydd i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg Aelodau'r Grŵp yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

- Cymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r Grŵp
- Cydweithio â Phwyllgor Safonau'r Cyngor (ac unrhyw un o is-bwyllgorau'r pwyllgor hwnnw) i arfer swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau. Yn benodol, cydweithio â'r Pwyllgor Safonau yn ei ddyletswydd i fonitro cydymffurfiad Arweinwyr Grŵp â'u dyletswydd dan y Ddeddf, ac i ddarparu gwybodaeth ar gyfer Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau
- Gweithio'n adeiladol â'r Swyddog Monitro ac Arweinwyr Grwpiau eraill mewn perthynas â'r ddyletswydd hon
- Gweithio o fewn y Protocol Datrysiad Lleol
- Cymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant sy'n ymwneud yn benodol â'r ddyletswydd hon

## 3. Gwerthoedd

Ymrwymo'n llawn a dangos y gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus**:**

1. Anhunanoldeb
2. Gonestrwydd
3. Uniondeb a Phriodoldeb
4. Dyletswydd i gynnal y gyfraith
5. Stiwardiaeth
6. Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
7. Cydraddoldeb a Pharch
8. Didwylledd
9. Atebolrwydd
10. Arweinyddiaeth
11. Gwerthfawrogiad o wahaniaeth diwylliannol
12. Llesiant a chynaliadwyedd cenedlaethau'r dyfodol
13. Adeiladu consensws

**Canllawiau ategol i Arweinwyr Grŵp Gwleidyddol**

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn gosod dyletswydd ar Arweinwyr Grŵp i gymryd "Camau Rhesymol" i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau eu grŵp. Mae'r nodyn canlynol yn cynnig dehongliad pellach o'r Ddeddf er mwyn ategu'r disgrifiad o rôl yr Arweinydd Grŵp.

Mae dyletwsydd ar Arweinwyr Grŵp i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau eu grŵp mewn Awdurdod Unedol. Mae hyn yn berthnasol i'r aelodau grŵp hynny pan maent yn gweithio neu'n rhoi'r argraff eu bod yn gweithio yn rhinwedd eu rôl fel aelod.

Cyflwynwyd y ddyletswydd hon gan Lywodraeth Cymru i annog safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau, gan gynnwys cwrteisi a pharch ym mhob sefyllfa tuag at bawb. Nid bwriad y ddyletswydd yw bod yn feichus ac ni fydd yn berthnasol i bawb (yn amlwg, yr aelodau hynny nad ydynt yn perthyn i grŵp). Y bwriad yw bod yn gymesur ac yn fuddiol ac annog unigolion i osgoi ymddygiad amhriodol cyn i'r ymddygiad hwnnw dorri'r Cod.

Mae cyfrifoldeb eisoes ar bob cynghorydd i roi gwybod am achosion o dorri'r Cod Ymddygiad.

Mae'r ddyletswydd yn berthnasol i Arweinwyr Grŵp ar gyfer aelodau eu grŵp pan fo'r aelodau hynny, er enghraifft, yn gweithio yn y Cyngor, mewn cyfarfodydd grwpiau gwleidyddol, yn y gymuned ac ar gyrff allanol megis yr Awdurdod Tân ac Achub, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau'r Heddlu, Cynghorau Cymuned a Thref, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a chyrff llywodraethu ysgolion.

Yn achos cyrff allanol, y safonau ymddygiad perthnasol yw'r rhai a nodir gan y corff y mae'r aelod grŵp yn gwasanaethu arno. Os nad yw'r rhain ar gael, Cod Ymddygiad y Cyngor fydd yn berthnasol.

Nid yw'r ddyletswydd yn gwneud Arweinwyr Grŵp yn ***atebol*** am ymddygiad eu haelodau, gan mai mater o ***gyfrifoldeb unigol*** yw Ymddygiad. Fodd bynnag, **rhaid** i Arweinwyr Grŵp gymryd "Camau Rhesymol" i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r Grŵp. A **rhaid** iddynt gydweithio â'r pwyllgor safonau ac unrhyw un o is-bwyllgorau'r pwyllgor hwnnw i arfer swyddogaethau'r pwyllgor safonau. A **rhaid** iddynt roi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar y materion hyn.

Gallai "camau rhesymol" olygu bod Arweinwyr Grŵp yn:

- Cynnal trafodaethau anffurfiol gydag aelodau allai fod yn dangos arwyddion cynnar o ymddygiad amhriodol, neu wneud cais am hyfforddiant i'r aelodau hynny, er mwyn 'taro'r ymddygiad yn ei dalcen' cyn iddo fynd yn broblem neu fod mewn perygl o dorri'r Cod.
- Gweithio'n adeiladol â phwyllgorau Safonau i roi gwybod am gydymffurfiad â'u dyletswydd, unrhyw bryderon difrifol am ymddygiad aelodau nad yw wedi'i gywiro

gan gamau anffurfiol, ac unrhyw ofynion o ran hyfforddiant ar eu cyfer eu hunain neu aelodau eu grŵp.

- Gweithio'n adeiladol gyda'r Swyddog Monitro, a'i gefnogi/chefnogi yn y materion hyn.
- Bod yn esiampl dda ar gyfer yr aelodau, gan ddangos y safonau uchaf posib o ran ymddygiad, cwrteisi a pharch.
- Cynnal ymwybyddiaeth o safonau uchel iawn o ymddygiad, cwrteisi a pharch, yn enwedig mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Gweithio'n adeiladol ag aelodau eraill y grŵp ar y cyngor ac ar gynghorau eraill i sicrhau'r safonau ymddygiad uchaf posib, yn y Cyngor a ledled Cymru.
- Croesawu ac ymateb i bryderon a godir gan aelodau'r Grŵp am ymddygiad yn y grŵp.

Mae dyletswydd ar bwyllgorau Safonau i fonitro cydymffurfiad ymysg Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol â'u dyletswyddau, a chynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddiant i grwpiau gwleidyddol ar y cyngor am faterion sy'n gysylltiedig â'u dyletswyddau.

Rhaid i bwyllgorau Safonau lunio adroddiad blynyddol i'r Cyngor am eu gwaith, gan gynnwys cydymffurfiad Arweinwyr Grŵp â'r ddyletswydd hon.

Y cosbau allai fod yn berthnasol i aelodau grŵp sy'n ymddwyn yn amhriodol ar gorff allanol yw'r rhai a osodir gan y cyrff hynny. Os nad oes cosbau wedi'u gosod, rheolau'r Cyngor fydd yn berthnasol.

Os bydd aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad ac wedi'i ddiarddel dros dro, dim ond yn rhinwedd eu rôl fel aelod o un awdurdod perthnasol y byddant wedi'u diarddel. Byddai'n rhaid iddynt fod wedi'u anghymhwyso er mwyn iddo fod yn berthnasol yn rhinwedd eu rôl fel aelod o fwy nag un awdurdod perthnasol. (Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau (Cymru) 2001).

"Mae'n bosib y gellid ystyried bod arweinydd grŵp sy'n methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd newydd mewn ffordd ystyrlon yn dwyn anfri ar ei swydd, yn groes i baragraff 6(1)(a) y Cod" Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, *Y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru Mai 2021*

**Pwrpas a Rôl Aelod sy'n Bencampwr**

**Beth yw aelod sy'n bencampwr?**

Mae aelodau sy'n bencampwyr yn siarad naill ai dros garfanau fyddai heb eu cynrychioli'n llawn fel arall, neu faterion mae angen eu cadw ar flaen gwaith y Cyngor er nad oes yr un cynghorydd na phwyllgor yn gyfrifol amdanyn nhw, o bosibl.

Yn ogystal â'u cyfrifoldebau eraill yn y Cyngor, mae Aelod sy'n Bencampwr yn gofalu bod y Cyngor yn rhoi pob ystyriaeth i'r garfan neu'r maes mae'n ei hyrwyddo wrth benderfynu ar faterion a llunio polisïau. .

Weithiau, bydd y cyrff allanol sy'n ymwneud â'r maes dan sylw yn cyhoeddi canllawiau am y wybodaeth mae'i heisiau ar gynghorwyr i gyflawni'r rôl. Fel arall, bydd Pencampwyr yn dibynnu ar y gwasanaeth arweiniol yn y Cyngor i roi canllawiau am y rôl.

**Beth maen nhw'n ei wneud?**

Dyma ddyletswyddau arferol Pencampwyr:

- Gofalu bod y maes yn cael ei ystyried wrth lunio polisïau neu ddod i benderfyniadau
- Holi am berfformiad ac adnoddau ar ei gyfer
- Tynnu sylw at y maes a gofalu bod y Cyngor yn gwybod am arferion da
- Ymgysylltu â chyrff allanol sy'n ymwneud â'r maes
- Ymgysylltu a aelodau a swyddogion eraill ynglŷn â'r rôl
- Ymgysylltu â chylchoedd cymunedol sy'n ymwneud â'r maes gwaith
- Rhoi adroddiadau i'r Cyngor am y camau sydd wedi'u cymryd

**Sut mae'r rôl yn cydblethu â'r strwythur corfforaethol?**

Bydd hynny'n amrywio yn ôl y maes/mater sy'n cael ei hyrwyddo a'r modd mae'r Cyngor yn gweithredu. Mae'n bosibl y bydd dryswch a gorymylu rhwng rolau'r Pencampwyr, yr aelodau gweithredol neu aelodau sgriwtini. Mae modd i gynghorydd gweithredol neu anweithredol gyflawni rôl Pencampwr.

Felly, mae'n bwysig i'r aelodau a'r swyddogion gydweithio i gytuno ar rolau a chamau yn y maes sy'n cael ei hyrwyddo a gofalu bod gweithdrefnau i alluogi aelodau sy'n Bencampwyr i roi adroddiadau am eu gweithgareddau. Byddai o gymorth pe bai'r Cyngor yn llunio protocol sy'n pennu pa bwerau sydd gan y Pencampwyr a pha bwerau nad oes ganddynt. Yn yr un modd, mae trefniadau penodi Pencampwyr yn amrywio rhwng y Cynghorau. Y Cyngor llawn fydd yn eu penodi mewn rhai ac, mewn eraill, cyfrifoldeb yr arweinydd yw hynny.

**Disgrifiad o'r rôl**

Mae'n anodd llunio disgrifiad sy'n gweddu i'r gwahanol rolau mae disgwyl i pencampwyr eu cyflawni yn y gwahanol strwythurau sydd gan gynghorau. Disgrifiad enghreifftiol yw'r canlynol.

## Disgrifiad o rôl Aelod sy'n Bencampwr

1. **Atebolrwydd**
    - I etholaeth Ynys Môn
    - I'r Cyngor llawn

2. **Diben a gweithgareddau**

    **Yn y Cyngor**
    - Hyrwyddo'r maes dan sylw ynglŷn â blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaethol y Cyngor
    - Hyrwyddo anghenion y garfan dan sylw ymhlith y rhai sy'n penderfynu ar ran y Cyngor
    - Cydweithio â'r rhai sy'n gyfrifol am benderfyniadau'r Cyngor i lunio strategaethau, polisïau a rhaglenni gwaith ar gyfer y maes dan sylw
    - Bod yn effro i bob mater sy'n ymwneud â'r maes
    - Cyfrannu ynghylch arferion da a gwella gwasanaethau/swyddogaethau sy'n ymwneud â'r maes drwy'r amser
    - Ymgysylltu ag aelodau ynglŷn â'r maes dan sylw megis mynychu cyfarfodydd a chymryd rhan, lle mae hynny'n bosibl/briodol, yng nghyfarfodydd perthnasol Pwyllgorau Sgriwtini/Pwyllgor Gwaith/Cyngor llawn ayyb
    - Codi ymwybyddiaeth o'r maes a chymryd rhan flaengar yn hyfforddiant aelodau a swyddogion lle bo'n berthnasol i'r maes hwnnw

    **Yn y gymuned**
    - Tynnu sylw at y maes yn y gymuned
    - Ymgysylltu â dinasyddion a chylchoedd cymunedol mewn materion sy'n ymwneud â'r maes hwnnw
    - Arwain a chynnal mentrau lleol sy'n ymwneud â'r maes

3. **Gwerthoedd**

    Ymrwymo'n llawn i werthoedd y cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

    1. Anhunanoldeb
    2. Gonestrwydd
    3. Uniondeb a Phriodoldeb
    4. Dyletswydd i gynnal y gyfraith
    5. Stiwardiaeth
    6. Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
    7. Cydraddoldeb a Pharch
    8. Didwylledd
    9. Atebolrwydd
    10. Arweinyddiaeth Gynhwysol
    11. Gwerthfawrogiad o wahaniaeth diwylliannol
    12. Llesiant a chynaliadwyedd cenedlaethau'r dyfodol
    13. Adeiladu consensws

**Aelod sy’n Bencampwr – Manyleb Person**

## Yn y Cyngor

- Deall y maes sy’n cael ei hyrwyddo ynglŷn â strategaethau a pholisïau’r Cyngor, arferion da, materion gwella, rhaglenni gwladol a buddiannau’r cylch dan sylw.
- Gallu ymgysylltu ag amryw aelodau a swyddogion ynglŷn â’r maes dan sylw a gwrando ar eu sylwadau am eu hanghenion
- Gallu eirioli’r maes dan sylw yn y Cyngor

## Yn y Gymuned

- Deall anghenion y gymuned ynglŷn â’r maes dan sylw
- Gallu ymgysylltu â dinasyddion/cylchoedd cymunedol mewn materion sy’n berthnasol i’r maes hwnnw
- Gallu arwain a chynnal mentrau lleol sy’n ymwneud â’r maes
- Gallu cynrychioli sefyllfa'r Cyngor i'r gymuned mewn perthynas â'r maes

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD:** | **4 Hydref 2022** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adroddiadau Blynyddol gan Aelodau** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **I ddarparu gwybodaeth am adroddiadau blynyddol Aelodau ar gyfer 2021/2022 a 2022/2023** |
| **AWDUR:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol)** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol)**<br>**MaredYaxley@ynysmon.llyw.cymru** |

## 1. Pwrpas yr adroddiad

Darperir adroddiad yn flynyddol i'r Pwyllgor hwn ynghylch y paratoadau ar gyfer creu a chyhoeddi adroddiadau blynyddol gan Aelodau.

## 2. Cefndir

Mae rhan 5 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Gynghorau i wneud trefniadau er mwyn caniatáu i Aelodau baratoi adroddiadau blynyddol ar eu gwaith.

Mae'r Cyngor wedi bod yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol Aelodau ers 2013/14. Er nad oes gofyn statudol i Aelodau gwblhau adroddiad, yn hanesyddol ystyriwyd ei bod yn arfer dda er mwyn hybu atebolrwydd lleol a chyflwyno gwybodaeth am gyfrifoldebau a swyddogaethau Aelodau. Mae'r adroddiad yn sail i gyfarfodydd Adolygiadau Datblygiad Personol (ADP) yr Aelodau hefo'i Arweinyddion Grwpiau, ac felly'n fodd o gynorthwyo'r Cyngor i gynnal ei Gynllun Datblygu Aelodau ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal â'r ADP, cynigir sesiynnau datblygu unigol i Aelodau gyda'r Pennaeth Democratiaeth neu Reolwr Hyfforddiant y Cyngor ac mae'r adroddiadau blynyddol yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol fel sail i'r trafodaethau hyn.

Mae adroddiadau blynyddol blaenorol a gyhoeddwyd gan y Cyngor ar ran yr Aelodau i'w gweld ar y ddolen yma

## 3. Adroddiadau Blynyddol ar gyfer 2021/2022

Mae adroddiadau blynyddol 2021/2022 yn berthnasol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 hyd nes 31 Mawrth 2022.

Bwriedir cyhoeddi'r adroddiadau blynyddol hyn ar wefan y Cyngor yn Tachwedd 2022. Mae hyn yn hwyrach na'r amserlen arferol (bydd adroddiadau'n cael eu cyhoeddi yn ystod

yr Haf fel arfer) oherwydd blaenoriaethau eraill yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym Mai 2022 a'r anhawsterau ers Tachwedd 2021 wrth benodi Pennaeth Democratiaeth parhaol.

Os bydd unrhyw Aelod cyfredol (oedd yn Aelod Etholedig cyn yr etholiad ym Mai 2022) yn dymuno cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gyfer 2021/2022, gofynnir iddynt anfon eu hadroddiad terfynol at sylw'r Pennaeth Democratiaeth Dros Dro erbyn 31 Hydref 2022.

Os bydd y Pwyllgor yn cytuno gyda'r awgrym hwn, bydd y Pennaeth Democratiaeth Dros Dro yn hysbysu'r Arweinyddion Grŵp am yr amserlen uchod cyn gynted â phosib.

**4. Adroddiadau Blynyddol ar gyfer 2022/2023**

Bydd adroddiadau blynyddol 2022/2023 yn berthnasol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 hyd nes 31 Mawrth 2023. Hon fydd adroddiad blynyddol cyntaf nifer o'r Aelodau a bydd yn cynnwys trosolwg o flwyddyn yr Aelodau Etholedig ar Gyngor Sir Ynys Môn ers eu hethol ym mis Mai 2022.

**4.1 Templed yr adroddiad**

Rhannwyd templed adroddiad (gweler **Atodiad A)** hefo'r holl Aelodau ar 14 Gorffennaf 2022 er mwyn (a) hysbysu Aelodau newydd o'r arferiad o gwblhau adroddiadau blynyddol a (b) cynnig y cyfle i'r holl Aelodau allu cadw cofnodion ar hyd y flwyddyn, os ydynt yn dymuno, er mwyn eu cynorthwyo pan fyddant yn dod i ddrafftio eu hadroddiad blynyddol terfynol ar ôl 31 Mawrth 2023.

Mae'r templed yn rhoi'r cyfle i Aelodau nodi'r gwaith maent wedi ei wneud ar ran eu hetholwyr; o faterion lleol yn y ward, i'w cyfraniadau ar gyrff allanol ynghyd â'u rolau corfforaethol yn y Cyngor.

Y penawdau o fewn y templed ydi:

| | |
|---|---|
| **Rôl a chyfrifoldebau'r Aelod**<br>- **Pwyllgorau ac Is-Bwyllgorau bu'r Aelod yn eistedd arnynt**<br>- **Cyrff allanol bu'r Aelod yn cynrychioli'r Cyngor arnynt** | Cyfle i Aelodau restru'r Pwyllgorau, Is-Bwyllgorau a Chyrff Allanol lle mae nhw wedi bod yn eistedd arnynt a chynnwys gwybodaeth am lefel eu presenoldeb mewn cyfarfodydd, eu rôl a'u cyfraniad.<br>Gall Aelodau edrych ar eu bywgraffiadau ar wefan y Cyngor am y wybodaeth yma. |
| **Gweithgareddau yn y Ward** | Cyfle i Aelodau gynnwys gwybodaeth am y materion maen't wedi bod yn ymwneud â nhw o fewn eu ward. Bydd angen i Aelodau ddwyn i gof eu gweithredoedd yn y ward; gorau oll os gall Aelodau gadw nodyn wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. |
| **Mentrau a Gweithgareddau Arbennig** | Cyfle i Aelodau gynnwys gwybodaeth am unrhyw fentrau neu weithgareddau arbennig maen't wedi bod yn ymwneud â nhw.<br>Bydd angen i Aelodau ddwyn i gof eu gweithredoedd; gorau oll os gall Aelodau gadw nodyn wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. |
| **Dysgu a Datblygu** | Cyfle i Aelodau gynnwys gwybodaeth am unrhyw |

| | |
|---|---|
| | hyfforddiant sydd wedi ei gwblhau ganddynt.<br>Gall Aelodau gysylltu gydag Adnoddau Dynol am wybodaeth ynghylch unrhyw Hyfforddiant â drefnwyd ar eu rhan gan y Cyngor. |
| **Gweithgareddau a Materion Eraill** | Cyfle i Aelodau gynnwys gwybodaeth am unrhyw weithgareddau maen't wedi bod yn ymwneud â nhw.<br>Bydd angen i Aelodau ddwyn i gof eu gweithredoedd; gorau oll os gall Aelodau gadw nodyn wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. |

### 4.2 Amserlen

Y bwriad ydi bod y Pennaeth Democratiaeth yn briffio Arweinyddion Grŵp ar yr amserlen derfynol o ran cwblhau a chyhoeddi adroddiadau blynyddol 2022-2023. Os dilynnir y drefn arferol, bwriedir iddo fod yn debyg i hyn:

| | |
|---|---|
| 1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023 | Cyfnod yr adroddiad blynyddol nesaf. |
| Ionawr 2023 | Pennaeth Democratiaeth yn adrodd i'r Arweinyddion Grŵp am yr amserlen ar gyfer derbyn / cyhoeddi adroddiadau gan atgoffa Aelodau a'u hannog i gwblhau yr adroddiadau blynyddol. |
| Ebrill a Mai 2023 | Caniatau cyfnod rhesymol o ddau fis yn ystod misoedd Ebrill a Mai 2023 i Aelodau gwblhau eu hadroddiadau blynyddol.<br>Dyddiad cau i Aelodau anfon eu hadroddiadau blynyddol at y Pennaeth Democratiaeth fydd 31 Mai. |
| Mehefin 2023 | Pennaeth Democratiaeth yn adrodd i'r Arweinyddion Grŵp am y nifer o Aelodau o fewn unrhyw Grŵp sydd wedi / ddim wedi cwblhau adroddiad blynyddol erbyn y dyddiad cau.<br>Gellir trafod cael estyniad amser, ond y bwriad fydd mynd ymlaen at y cam nesaf. |
| Mehefin neu Gorffennaf 2023 | Cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau ar wefan y Cyngor ar y ddolen yma |

## 5. Argymhellion

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad.

5.2 Gofynnir am gytundeb y Pwyllgor fod y Pennaeth Democratiaeth Dros Dro yn hysbysu'r Arweinyddion Grŵp am yr angen i Aelodau anfon eu hadroddiadau blynyddol ar gyfer 2021/2022 at y Pennaeth Democratiaeth Dros Dro erbyn 31 Hydref 2022.

5.3 Gofynnir am gytundeb y Pwyllgor fod Aelodau'n cael eu hannog i ddefnyddio'r templed adroddiadau fel sydd yn **Atodiad A** er mwyn cwblhau eu hadroddiadau blynyddol ar gyfer 2022/2023.

5.4 Gofynnir am gytundeb y Pwyllgor i'r amserlen arfaethedig sydd wedi ei chynnwys yn adran 4.2 yr adroddiad yma ar gyfer paratoi a chyhoeddi adroddiadau blynyddol yr Aelodau yn 2022/2023.

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2022/2023

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd:** xxxxx
**Parti/Grwp:** xxxxx **Ward:** xxxxx

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| Rhwng Mai 2022 a Ebrill 2023, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol: | Crynodeb o Bresenoldeb |
|---|---|
| xxxxx | http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgAttendance |
| xxxxx | |
| xxxxx | |
| xxxxx | |
| xxxxx | |
| xxxxx | |
| xxxxx | |
| xxxxx | |

xxxxx

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

| Corff allanol | Crynodeb o rôl a chyfraniad |
|---|---|
| - xxxxx | xxxxx |

## 2 - Gweithgareddau yn y Ward
xxxxx

## 3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig
xxxxx

## 4 - Dysgu a Datblygu
xxxxx

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgListTraining

## 5 - Gweithgareddau a Materion Eraill
xxxxx

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:
Cyngor Sir Ynys Môn (ynysmon.gov.uk)

| | |
|---|---|
| **Cynghorydd xxxxx** | **xx/xx/2023** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Pwyllgor: | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Dyddiad y cyfarfod: | 4 Hydref 2022 |
| Teitl: | Amseru Cyfarfodydd y Cyngor |
| Adroddiad gan: | Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |

## 1.0 Cefndir

Yn unol â'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru dan Adran 6(1) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, rhaid i'r Cyngor gynnal arolwg ymhlith yr Aelodau o ran amseru ei gyfarfodydd. Dylai pob awdurdod lleol adolygu amseroedd cychwyn cyfarfodydd o leiaf unwaith y tymor, gorau oll petai hynny'n fuan ar ôl ethol Cyngor newydd.

Mae hyn hefyd yn gyson a'r datganiad Cyngor Amrywiol y bu i'r Cyngor llawn ei fabwysiadu yn ei gyfarfod ar 7 Medi 2021, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor hwn ar 29 Gorffennaf 2021. Mae'r datganiad yn cynnwys ymrwymiad i "*ystyried sut i ddarparu hyblygrwydd ym musnes y Cyngor trwy adolygu ei drefniadau ymarferol o ran cynnal cyfarfodydd*".

## 2.0 Ymatebion

Dosbarthwyd holiadur i'r holl aelodau, er mwyn cael eu barn. Y dewisiadau oedd cychwyn cyfarfodydd am 10.00 yb, 2.00 yh, 4.00 yh neu 6.00 yh.

Cafwyd 17 o ymatebion (48.57%) o du'r aelodau etholedig. Cylchredwyd yr holiadur hefyd ymysg aelodau anetholedig, gan gynnwys y partion allanol sy'n mynychu cyfarfodydd y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG).

Rhoddir isod ddadansoddiad o'r ymatebion:

| Pwyllgor | Adborth yn nhrefn y dewis a ffefrir | Nifer sy'n ffafrio'r amser fel dewis cyntaf |
|---|---|---|
| **Cyngor Sir** | | |
| 10.00 yb | 2 | 5 |
| 2.00 yh | 1 | 9 |
| 4.00 yh | 3 | 1 |
| 6.00 yh | 4 | 0 |


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| **Pwyllgor** | **Adborth yn nhrefn y dewis a ffefrir** | **Nifer sy'n ffafrio'r amser fel dewis cyntaf** |
|---|---|---|
| **Pwyllgor Gwaith** | | |
| 10:00 yb | 1 | 9 |
| 2:00 yh | 2 | 4 |
| 4:00 yh | 3 | 1 |
| 6:00 yh | 4 | 0 |
| **Pwyllgorau Sgriwtini** | | |
| 10:00 yb | 2 | 5 |
| 2:00 yh | 1 | 7 |
| 4:00 yh | 3 | 1 |
| 6:00 yh | 4 | 1 |
| **Pwyllgorau Rheoleiddiol** (Cynllunio a Gorchmynion; Llywodraethu ac Archwilio; Penodiadau, Ymchwilio; Disgyblu; Apeliadau; Trwyddedu) | | |
| 10:00 yb | 2 | 5 |
| 2:00 yh | 1 | 8 |
| 4:00 yh | 3 | 2 |
| 6:00 yh | 4 | 0 |
| **Pwyllgorau eraill** | | |
| 10:00 yb | 2 | 5 |
| 2:00 yh | 1 | 7 |
| 4:00 yh | 3 | 1 |
| 6:00 yh | 4 | 1 |

**Cyngor Sir -** y mwyafrif yn cefnogi 2:00 yh (5 hefyd yn ei nodi fel ail ddewis)

**Pwyllgor Gwaith -** y mwyafrif yn cefnogi 10:00 yb (2 hefyd yn ei nodi fel ail ddewis)

**Pwyllgorau Sgriwtini -** y mwyafrif yn cefnogi 2:00yh (6 hefyd yn ei nodi fel ail ddewis)

**Pwyllgorau Rheoleiddiol** – y mwayfrif yn cefnogi 2:00 yh (5 hefyd yn ei nodi fel ail ddewis)

O ran 4 aelod anetholedig y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, cafwyd 3 ymateb, gyda 2 yn nodi 2:00 yh fel eu dewis cyntaf ac un yn nodi 10:00 yb fel y dewis cyntaf

**Pwyllgorau Eraill** – mwyafrif yn cefnogi 2:00 yh (6 hefyd yn ei nodi fel ail ddewis)

O ran 5 aelod anetholedig y Pwyllgor Safonau cafwyd 5 ymateb gyda 3 yn nodi 10:00 yb fel eu dewis cyntaf, 1 yn nodi 2:00 yh ac 1 yn nodi 6:00yh. Roedd 2 yn nodi 2:00 yh fel eu hail ddewis.

O ran y partion allanol sy'n mynychu cyfarfodydd y CYSAG, cafwyd 2 ymateb, gydag 1 yn cefnogi 10:00 yb a'r llall yn cefnogi 2:00 yh

Sylwadau eraill a wnaed:

- Roedd 1 aelod yn hyblyg ar draws yr amseroedd
- Roedd 3 aelod wedi nodi y byddai cadw at ddyddiau penodol ar gyfer cynnal cyfarfodydd pwyllgor (ee dydd Mawrth, Mercher a Iau) yn helpu gyda chyfuno gwaith dydd i ddydd a gwaith cynghorydd

## 3.0 Casgliadau

Mae'r mwyafrif o'r aelodau etholedig a ymatebodd yn ffafrio glynu at y trefniadau presennol o gynnal cyfarfodydd yn ystod y diwrnod gwaith:

Cyngor Sir (2:00 yh)
Pwyllgor Gwaith (10:00 yb)
Pwyllgorau Sgriwtini (2:00 yh)
Pwyllgorau Rheoleiddiol a'r holl Bwyllgorau eraill (2:00 yh) – ond mae'r sefyllfa o ran y ddau bwyllgor isod angen sylw pellach:

Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion – sydd yn cychwyn am 1.00yh ar hyn o bryd.

Pwyllgor Safonau – gan fod mwyafrif o'i aelodaeth yn aelodau anetholedig. 10:00 yb yw dewis cyntaf y mwyafrif (3 allan o 5); gydag 1 yn ffafrio 2:00 yh ac 1 un ffafrio 6:00 yh. Roedd 2 wedi nodi 2:00 yh fel eu hail ddewis.

Ar hyn o bryd, mae cyfarfodydd y Pwyllgor hwn yn cychwyn am 2:00 yh

## 4.0 Ystyriaethau cydraddoldeb

Gofynnir i'r Pwyllgor roi sylw dyledus i'r pwyntiau isod cyn gwneud ei argymhellion i'r Cyngor llawn:

- Lleiafrif fechan (2 aelod) yn ffafrio cychwyn yn hwyrach (4.00 yh a 6.00 yh) ond ni wnaed unrhyw sylwadau penodol mewn perthynas â hyn.
- 3 Aelod wedi nodi y byddai cadw at ddyddiau penodol ar gyfer cynnal cyfarfodydd pwyllgor (ee dydd Mawrth, Mercher a Iau), yn helpu gyda chyfuno gwaith dydd i ddydd a gwaith cynghorydd

- Argaeledd cyfraniadau tuag at gostau gofal a chymorth personol, er mwyn:

  - galluogi unrhyw un y byddai eu cyfrifoldebau fel gofalwr yn cyfyngu ar eu gallu i gyfranogi fel aelod o awdurdod i gyflawni eu rôl, neu

  - roi cymorth gofal i aelod er mwyn eu galluogi i gyflawni eu rôl.

  Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o'r farn y dylai Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd gymryd camau i annog aelodau sy'n gymwys i hawlio'r cyfraniadau hyn.

## 5.0 Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor:

- roi sylw dyledus i holl ganfyddiadau'r arolwg cyn gwneud argymhellion i'r Cyngor llawn ar amseriad cyfarfodydd y Cyngor o 2023/24

- gymryd y cyfle i godi ymwybyddiaeth am y cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol

- nodi yng ngoleuni canllawiau statudol drafft, bod adolygiad pellach o amseriad, amlder a hyd cyfarfodydd Pwyllgor i'w gynnal ar ddechrau 2024. Yr arolwg drafft a fydd yn cael ei ddosbarthu i aelodau i'w ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor hwn yn gyntaf.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English